

**Menter a Busnes :  
Y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth**

# **Chwilio am Gyfleoedd i Greu Gwaith yn y Sector Iaith- gysylltiol**

**Steve Eaves  
Cwmni Iaith**



**Mawrth 2002**



# Cynnwys

	<i>Tudalen</i>
Rhagair	4

## Rhan Un – Cyflogaeth yn y Meysydd “laith-gysylltiol”

1.1. Yr angen am ymchwil bellach i ddiffinio'r Sector a chasglu gwybodaeth amdano	7
1.2. Diffinio “laith-gysylltiol” i ddibenion yr adroddiad hwn	9
1.3. Nodyn am y cefndir hanesyddol diweddar	10
1.4. Adnabod y meysydd cyflogaeth presennol	12

## Rhan Dau – Y Potensial am Dwf mewn Meysydd laith-gysylltiol

2.1. Cyflwyniad	21
2.2. Ffactorau Dylanwadol	22
2.3. Targeddu Meysydd Twf Potensial	25
2.4. Crynodeb - Syniadau a Chyfleoedd	39
Atodiad	43
Llyfryddiaeth	50
Cydnabyddiaeth	53

# Rhagair

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Gwmni Iaith ar ran Menter a Busnes fel cyfraniad at y Rhaglen Dechrau Busnes.

Mae'r Rhaglen honno yn ei thro yn cyfrannu at gyflawni nodau ac amcanion y Ddogfen Strategaeth ar gyfer y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth a gydlynir gan Awdurdod Datblygu Cymru.

Diben yr adroddiad hwn yw :

- nodi'r prif sectorau lle y ceir cyflogaeth a gwerth uchel ar hyn o bryd mewn meysydd iaith-gysylltiol ac
- archwilio'r sectorau hyn er ceisio adnabod meysydd penodol a allai gynnig cyfleoedd i ddatblygu cyflogaeth newydd a fydd yn arbennig o berthnasol i siaradwyr Cymraeg.

Rhan Un

**Cyflogaeth yn y Meysydd  
laith-gysylltiol**



## 1.1. Yr Angen am ymchwil bellach i ddiffinio'r Sector a chasglu gwybodaeth amdano

1.1.1. Mae'r gwahanol sectorau cyflogaeth sy'n destun adroddiadau eraill a gomisiynwyd gan Fenter a Busnes fel rhan o'r prosiect hwn yn rhai a adwaenir yn ddigon rhwydd. Gellir eu dosbarthu'n hwylus i gategoriâu sydd wedi eu hen sefydlu ym mhob mynegai economeg, yn y Cyfrifiadau Poblogaeth, mewn cyfeirlyfrau ar economi Cymru a Gwledydd Prydain ac mewn cofrestrau cyflogaeth a chronfeydd data sy'n ymwneud â dadansoddi'r farchnad lafur a llafurluoedd. Mae'r categorïau hyn a'r sectorau hyn yn hen gyfarwydd i weithredwyr yn y maes o dan benawdau cyffredinol megis y rhai a ganlyn :

Twristiaeth  
Hamdden  
Y Sector Ariannol  
Amaethyddiaeth  
Y Prif Gyfleustodau – Dŵr, Trydan, Nwy  
Cyfathrebu  
Y Celfyddydau ac Adloniant  
Llywodraeth Leol  
Addysg  
Y Sector Cymunedol /Gwirfoddol., ac yn y blaen

1.1.2. Er bod y wybodaeth ystadegol a ffeithiol sydd ar gael am yr uchod yn amrywio o faes i faes o ran manylder, defnyddioldeb ac ansawdd, teg yw nodi bod y ffynonellau a'r data sydd ar gael amdanynt yn cynnig o leiaf ryw fath o droedle a rhyw gil drws i'r ymchwilydd.

1.1.3. Nid yw hyn yn wir am y sector iaith-gysylltiol. Oherwydd ei faint cymharol fychan a'i newydd-deb cymharol, nid yw wedi cael ei adnabod na'i gydnabod yn yr un modd hyd yn hyn. O ganlyniad, prin iawn yw'r wybodaeth ystadegol ystyrion sydd ar gael i osod sylfaen gref i unrhyw drafodaeth am y mathau o gyflogaeth sydd ar gael yn y sector hwn. Ni ellir troi at unrhyw ffynhonnell wybodaeth barod am hyd yn oed amcangyfrif bras iawn o'r niferoedd a gyflogir yn y meysydd a ddiffiniwyd gennym yn adran 1.1. ar ddechrau'r adroddiad hwn.

1.1.4. Ymddengys i ni felly fod yma destun prosiect ymchwil sylweddol, a dylid trafod hyn ymhellach â Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Byddai o fantais i'r Bwrdd ar y naill law ac i Fenter a Busnes ac Awdurdod Datblygu Cymru ar y llaw arall petai yna ymchwil ddibynadwy ar gael i ddangos y 'gwerth uchel' a'r 'gwerth ychwanegol' a ddeillia o'r iaith Gymraeg yn gyffredinol, a gwaith 'iaith-gysylltiol' yn benodol, yn economi'r Gymru gyfoes.

1.1.5. Yn yr Atodiad ar ddiwedd yr adroddiad hwn cynigir amlinelliad ar ffurf manyleb ddrafft yn nodi pa fath o ymchwil y mae eu hangen i'r maes cynyddol bwysig hwn, ynghyd â nodau ac amcanion ymchwil o'r fath a nodyn am y gwahanol gyrrff ac asiantaethau a fyddai'n elwa o'r ymchwil. Argymhellir y dylid defnyddio'r

Atodiad fel papur trafod a fyddai'n sail i gynnal trafodaethau â'r holl gyrff perthnasol am yr anghenion a ddynodir yma.

- 1.1.6. Bîd a fo am sefyllfa anfanteisiol yr ymchwilydd ar hyn o bryd a'r diffyg data i'w gynorthwyo, ar sail ein gwaith ymgynghori go eang ar draws sawl maes ynghyd ag adnabyddiaeth Cwmni Iaith o'r sector cymharol newydd hwn, rydym wedi gallu disgrifio'n weddol hyderus yn adran 1.4. isod y gwahanol feysydd lle y ceir cyflogaeth arwyddocaol yn y sector ar hyn o bryd.

## 1.2. Diffinio “iaith-gysylltiol” i ddibenion yr adroddiad hwn.

1.2.1. Yng nghyd-destun yr adroddiad hwn mae'r term “iaith-gysylltiol” yn cwmpasu sawl math o gyflogaeth sydd ag un neu ragor o'r nodweddion canlynol :-

- **gwaith y mae'r defnydd o'r iaith Gymraeg neu'r defnydd o ddwyieithrwydd Cymraeg/Saesneg yn anhepgorol neu'n hanfodol iddo oherwydd gofyniad i weithredu yn Gymraeg neu'n ddwyieithog - e.e. gweinyddwyr dwyieithog, proffesiynau sy'n cynnig gwasanaethau dwyieithog;**
- **gwaith sydd â'r iaith Gymraeg ei hun yn 'ddeunydd crai' iddo - e.e. cyfieithwyr, hyfforddwyr iaith.**

1.2.2. Mae'r adroddiad yn ceisio osgoi ymdrin â meysydd cyflogaeth sy'n destun adroddiadau ar wahân, e.e. cyflogaeth ym maes adloniant a'r celfyddydau, mewn llywodraeth leol, y sector ariannol ac yn y blaen.

1.2.3. Fodd bynnag, braidd yn gamarweiniol fyddai ceisio ynysu'r drafodaeth am y meysydd 'iaith-gysylltiol' yn rhy ddeddfol oddi wrth bob maes cyflogaeth arall. Er y ceisiwn ganolbwyntio yma ar y defnydd o'r Gymraeg neu ddwyieithrwydd Cymraeg / Saesneg fel nodwedd hanfodol mathau penodol o waith, rydym yn ymwybodol bod cyflogaeth mewn swyddi 'gwerth uchel' yng Nghymru mewn cyflwr o newid parhaus a gall fod yna gyfleoedd i droi'r Gymraeg yn elfen anhepgorol mewn meysydd lle nad yw'n anhepgorol ar hyn o bryd. Mae'n anochel felly fod yna rywffaint o orgyffwrdd yma ac acw rhwng y meysydd dan sylw a meysydd eraill.

## 1.3. Nodyn am y Cefndir Hanesyddol Diweddar

- 1.3.1. Hyd ddiwedd y 1960egau bu gwaith iaith-gysylltiol yn gysylltiedig yn bennaf â swyddi ym myd addysg a'r weinidogaeth, busnesau lleol a byd amaeth mewn ardaloedd Cymraeg, rhai peuoedd cymunedol a diwylliannol Cymraeg ac, i raddau llawer llai, rai swyddi eraill yn y sector cyhoeddus. Y darlun traddodiadol yw fod y Gymraeg wedi bod yn hanfodol i yrfaeod rhai athrawon mewn ysgolion a cholegau, gweinidogion eglwysi Cymraeg, rhai swyddogion awdurdodau lleol, swyddogion cyrff diwylliannol Cymraeg megis Urdd Gobaith Cymru ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru, cnewyllyn bychan o ddarlledwyr Cymraeg a rhai cyrff cymunedol mewn ardaloedd mwy Cymraeg na'i gilydd.
- 1.3.2. Yn y 1960egau cafwyd ymchwydd mewn ymwybyddiaeth genedlaethol yng Nghymru a sefydlwyd y Swyddfa Gymreig yn weinyddiaeth ddatganoledig yng Nghaerdydd, sef y cam pwysig cyntaf yn y broses o ddatganoli rhywfaint o rym llywodraethol o Lundain i Gymru. Cafwyd hefyd Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 a sefydlodd yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn llysoedd barn yng Nghymru a chyfle i'w defnyddio mewn gweinyddiaeth gyhoeddus.
- 1.3.3. Wedi ad-drefnu llywodraeth leol ym 1974 gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer o awdurdodau lleol a roddai statws i'r iaith Gymraeg i wahanol raddau wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, cyfathrebu â'r cyhoedd, cynnal cyfarfodydd a chodi arwyddion swyddogol. Bu'n rhaid i'r Swyddfa Gymreig hithau wrth bolisi dwyieithrwydd hefyd er mwyn hwyluso ei pherthynas ymarferol â'r awdurdodau lleol. Yn sgîl hyn oll roedd corff o arfer da dwyieithog yn dechrau ymsefydlu a rhoddwyd amlygrwydd cyhoeddus cynyddol i'r Gymraeg.
- 1.3.4. O dipyn i beth, lledodd yr arfer da drwy'r sector cyhoeddus yn ystod wythdegau'r ganrif ddiwethaf gan ddylanwadu'n raddol hefyd ar y sector preifat.
- 1.3.5. Wedi pasio **Deddf yr Iaith Gymraeg 1993** a sefydlu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ac yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru ym 1996, gwelwyd cynnydd aruthrol mewn gweithgaredd economaidd iaith-gysylltiol. Er mai parhau o hyd mae'r duedd hanesyddol i waith o'r fath fodoli yn y sector cyhoeddus a'r sectorau cymunedol a gwirfoddol yn bennaf, mae'n arwyddocaol fod gwaith o'r fath yn prysur ennill ti yn y sector preifat hefyd erbyn hyn.
- 1.3.6. Er pan sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mai 1999 yn dilyn y refferendwm ar ddatganoli yng Nghymru, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg bellach yn adrodd yn uniongyrchol i'r Cynulliad etholedig. Er i'r Bwrdd fynegi rhywfaint o siom mewn adroddiadau diweddar am ddiffyg blaengaredd y Cynulliad o ran agweddau polisi strategol tuag at y Gymraeg, rhaid nodi bod y Cynulliad wedi ymateb yn gadarnhaol drwy gynnal ymgynghoriad eang ar yr iaith Gymraeg yn ystod haf a hydref 2001 gyda golwg ar gynllunio strategaeth ar ei chyfer i'r dyfodol.
- 1.3.7. Yr hyn sy'n hanesyddol bwysig yw fod y Gymraeg yn destun trafodaeth a sylw ar lefel lywodraethol genedlaethol mewn fforwm democrataidd. Mae hyn yn agor y

drws i gynllunio cymdeithasegol-ieithyddol ar lefel *macro*, a strategaethau mwy hirdymor a chynhwysfawr nag a welwyd hyd yma.

- 1.3.8. Anodd iawn yw ceisio mesur union hyd a lled y cynnydd yn y peuoedd economaidd iaith–gysylltiol fesul sector heb ymchwil ddibynadwy, fel a nodir yn yr adran nesaf o'r Adroddiad hwn, ond mae'r meysydd a restrir maes o law yn **adran 1.4.** yn rhoi rhyw syniad o'r modd y newidiwyd y patrwm traddodiadol a ddisgrifiwyd yn 1.2.1.
- 1.3.9. Wrth edrych tua'r dyfodol mae'n bwysig cadw mewn golwg mai'r prif ffactorau hanesyddol sydd wedi esgor ar y cynnydd a welwyd hyd yma yn y sector iaith-gysylltiol dros y deugain mlynedd diwethaf yw :-
- cynnydd cyson mewn ymwybyddiaeth genedlaethol ac adfywiad yr "hunaniaeth Gymreig";
  - deddfwriaeth yn codi statws y Gymraeg; a
  - datganoli grym llywodraethol o Lundain a sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 1.3.10. Mae'r prosesau a'r tueddiadau sy'n deillio o'r uchod yn parhau i fynd rhagddynt o hyd, a gan fod y cyfnod hwn yn un mor hanesyddol unigryw ar y Gymraeg ar sawl ystyr, ni wyddys eto sut y bydd y prosesau hyn yn dylanwadu ar batrymau defnyddio'r Gymraeg, ymddygiad a disgwyladau siaradwyr Cymraeg, patrymau trosglwyddo'r iaith i blant a dysgwyr ac yn y blaen.

## 1.4. Adnabod y Meysydd Cyflogaeth Presennol

*Yn yr adran hon bwrrir golwg dros y meysydd cyflogaeth hynny lle y ceir gwaith iaith-gysylltiol ar hyn o bryd. Amlinelliad yn unig yw'r disgrifiadau canlynol ac ni honnir ei fod yn un hollol gyflawn. Credwn serch hynny ei fod yn cynnwys y prif feysydd.*

### CYFIEITHU

- Ysgrifenedig: dogfennau a deunyddiau ysgrifenedig/printiedig eraill
- Cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd
- Cyfryngol: is-deitlo + trosleisio
- Testunau llenyddol/academaidd

Dyma broffesiwn a gynyddodd yn sylweddol iawn dros y blynyddoedd diwethaf. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn y ddau faes a restrir gyntaf uchod – cynnydd sydd i'w briodoli i raddau helaeth iawn i'r galw a ddeilliodd o weithredu Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Gan mai deddf sy'n dylanwadu ar y sector cyhoeddus gan mwyaf – a'r sector gwirfoddol i raddau llawer llai – yw'r ddeddf honno, mae'r cynnydd wedi tarddu yn bennaf o'r galw yn y sectorau hynny. Yn ogystal â chreu cyflogaeth o fewn y cyrff perthnasol eu hunain (yn gyfieithwyr unigol ac yn unedau cyfieithu), mae llawer o gyrff yn defnyddio cyfieithwyr masnachol i ateb gofynion eu cynlluniau iaith neu bolisiau iaith.

### SWYDDOGION IAITH

- awdurdodau lleol
- cyrff statudol, e.e. yr heddluoedd, gwasanaethau tân, gwasanaethau iechyd, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a.y.y.b.
- cyfleustodau
- sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch
- y mentrau iaith

Proffesiwn newydd a ddatbygodd, eto, yn sgîl gweithredu Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Swyddogion sy'n ymwneud â pharatoi a rhoi Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol ar waith yw'r rhain, a goruchwylio eu gweithrediad a'u monitro yn unol â gofynion Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Ymhlith y Mentrau Iaith, meithrinwyd swyddogaeth ychydig yn wahanol – sef swyddogion sy'n cynghori mudiadau lleol a grwpiau cymunedol ar arfer da wrth weithredu'n ddwyieithog; annog grwpiau o'r fath i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg a cheisio cynnal y Gymraeg fel iaith gymunedol hyfyw.

## **GWEINYDDOL, DWYIEITHOG**

- teipio, clyw-deipio, gwaith ysgrifenyddol
- ysgrifenyddion personol
- gweinyddu

Er mwyn hwyluso'r cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol, mae cyflogwyr yn y sectorau hyn wedi mynd ati i gynyddu'r gronfa o sgiliau gweinyddol at eu defnydd.

## **RHEOLI**

- mewn sefydliadau Cymraeg a dwyieithog

Yn dilyn y cynnydd yn y nifer o sefydliadau o'r fath gwelwyd cynnydd cyfatebol yn y nifer o swyddi rheoli yn gofyn am sgiliau dwyieithog.

## **HYFFORDDIANT IAITH A HYFFORDDIANT IAITH-GYSYLLTIOL**

- Cymraeg i Oedolion
- Cymraeg yn y gweithle
- Glowyi Cymraeg
- Aseswyr NVQ – (a) Cymraeg fel pwnc (b) Cymraeg fel cyfrwng

Wrth i'r galw am sgiliau Cymraeg gynyddu, gwelwyd cynnydd yn y galw am gyrsiau a dulliau hyfforddi eraill i gynorthwyo staff i ennill sgiliau newydd neu wella eu sgiliau.

## **GWASANAETHAU YMGYNGHORWYR RHEOLI**

- Hyfforddiant Rheoli - cyfrwng Cymraeg
- Hyfforddiant Rheoli - elfennau ieithyddol mewn : -
  - Gwerth Gorau
  - Gofal o'r cwsmer
  - Buddsoddwyr mewn Pobl
- Hyfforddiant ar le'r Gymraeg mewn prosesau rheoli adnoddau dynol
- Cynllunio gwaith prosiect
- Llywio / ymgymryd â phrosiectau /gwaith comisiwn

- Cynnal astudiaethau

Ar hyn o bryd mae'r categori hwn yn un bychan iawn. Ceir rhai ymgynghorwyr sydd, trwy hap a damwain gan amlaf, yn medru darparu gwasanaeth yn Gymraeg a Saesneg pan fo'n ofynnol. Fodd bynnag prin iawn yw'r rhai all ymdrin yn hyderus â pherthynas gofynion ieithyddol â phrosesau rheoli.

## **YMGYNGHORWYR IAITH ARBENIGOL**

- cynllunwyr iaith
- ymgynghorwyr polisi
- staff prosiectau iaith
- ymchwilwyr
- cynnal / hwyluso rhwydweithiau (e.e. Fforwm Iaith)

Categori bychan iawn ar hyn o bryd. Dyma'r maes y mae Cwmni Iaith yn flaenllaw ynddo. Mae'n gorgyffwrdd rywfaint â gwaith ymgynghorwyr rheoli, staff mentrau iaith a gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

## **GWAITH CYMUNEDOL (Y MENTRAU IAITH)**

- rheolwyr / cyfarwyddwyr
- swyddogion maes
- swyddogion datblygu
- swyddogion prosiect

Ers sefydlu'r Fenter Iaith gyntaf yng Nghwm Gwendraeth ym 1991, mae rhwydwaith o Fentrau wedi datblygu ar hyd a lled Cymru. Yn ôl **Mentro Ymlaen** (1) sef arolwg Cwmni Iaith o'r Mentrau Iaith, 2000, erbyn y flwyddyn honno roedd **20** o Fentrau'n bodoli, yn cyflogi cyfanswm o 27.5 o staff.

## **DIWYLLIANNOL, CYMRAEG**

- Urdd Gobaith Cymru
- Merched y Wawr
- Ffermwyr Ifanc
- Mudiad Meithrin
- Yr Eisteddfod Genedlaethol

---

(1) *Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Mentro Ymlaen - Arolwg o'r Mentrau Iaith, 2000; Adroddiad gan Gwmni Iaith, Caerdydd, 2000.*

Dyma'r peuoedd mwy traddodiadol y cyfeiriwyd atynt ar ddechrau adran 1.2. yr adroddiad hwn. Mae ambell un ohonynt yn cynnwys amrywiaeth eang o swyddi, gan adlewyrchu natur amlochrog eu gweithgareddau. Mae Urdd Gobaith Cymru er enghraifft yn cyflogi swyddogion ym meysydd rheoli, cyfrifo, gweinyddu, llywio gweithgareddau, swyddogion datblygu, staff cegin ac eraill.

## **Y DIWYDIANT CYFATHREBU**

- Cysylltiadau cyhoeddus
- Swyddogion y Wasg
- Cyflwynwyr – radio a theledu
- Newyddiadurwyr

Gwelwyd peth cynnydd yn y ddau gategori cyntaf uchod wrth i fwyfwy o gyrff a sefydliadau fabwysiadu polisi neu arferiad o gyfathrebu'n ddwyieithog â'r cyhoedd a'r cyfryngau. Bu rhywfaint o gynnydd yn y ddau gategori olaf hefyd wrth i orsafoedd radio lleol (e.e. Radio Ceredigion, Champion F.M., Marcher Sound) gynnwys y ddwy iaith yn eu darllediadau.

## **Y SECTOR IECHYD / GOFAL**

- Therapyddion Lleferydd
- Dehonglwyr i'r Byddar a'r Trwm eu clyw
- Gofalwyr plant
- Gofalwyr henoed
- Staff Nyrsio
- Meddygon
- Deintyddion
- Ymgynghorwyr arbenigol
- Maes triniaethau "ategol" a/neu "amgen" – e.e. ffisiotherapi, osteopathi, aromatherapi a.y.y.b
- Milfeddygon

Mae'r categori hwn yn gymysgedd o beuoedd traddodiadol a pheuoedd newydd. Hynny yw, yn y gorffennol mi fyddai'r meddyg lleol, y deintydd lleol, y milfeddyg lleol, gofalwyr yr henoed a gofalwyr plant yn weddol debygol o fod yn ddwyieithog yn yr ardaloedd 'Cymreiciaf' - yn aml am eu bod yn hanu o'r union gymunedau a wasanaethid. Byddai hynny'n llai tebygol wrth reswm yn yr ardaloedd lle roedd canran y siaradwyr Cymraeg yn is. Mae hyn yn wir o hyd, ond i raddau llawer llai wrth i symudoledd gweithwyr ddyllanwadu fwyfwy ar batrymau gwasanaethau lleol.

Fodd bynnag, mae'n wir erioed hefyd mai po fwyaf arbenigol yw'r swyddi - megis ymgynghorwyr meddygol a therapyddion lleferydd, er enghraifft - lleiaf tebygol fydd

deiliaid y swyddi hynny o fod yn ddwyieithog. Serch hynny mae yna ymwybyddiaeth gynyddol drwy'r sector gofal iechyd bellach o bwysigrwydd darpariaeth ddwyieithog

## **Y SECTOR DATBLYGU ECONOMAIDD**

- Antur Teifi
- Menter a Busnes
- Newidiem
- Awdurdod Datblygu Cymru
- Clwydfro
- Antur Dwyrdd-Llŷn
- Antur Penllyn
- Unedau Datblygu Economaidd awdurdodau lleol

I wahanol raddau mae'r asiantaethau uchod i gyd wedi mynd ati i recriwtio siaradwyr Cymraeg i weithredu yn y maes hwn. Mae'r dasg o annog cyrff ac unigolion i fentro buddsoddi neu fentro sefydlu busnesau newydd yn un sy'n gofyn am ymddiriedaeth a pherthynas dda rhwng y sawl sy'n annog a'r sawl a anogir. Mae'r gallu i uniaethu'n ieithyddol ac yn ddiwylliannol a chleientau yn gaffaeliad pendant yn y cyswllt hwn.

## **DYLUNIO DWYIEITHOG**

- Pecynnu a marchnata
- Dylunio graffeg
- Argraffwyr a chyhoeddwyr
- Cynhyrchu arwyddion
- Technoleg Gwybodaeth. - Meddalwedd ddwyieithog  
- Gwefannau dwyieithog

Wrth i'r Gymraeg ddod yn fwyfwy gweledol amlwg, bu cynnydd cyfatebol yn y gwaith ym mhob un o'r meysydd uchod yn ymwneud â'r broses o gynhyrchu deunyddddwyieithog neu Gymraeg . Ymhlith y ffactorau dylanwadol gellir rhestru :

- ymgyrch "Blas ar Gymru" Awdurdordod Datblygu Cymru a'i dylanwad ar arddull pecynnu nwyddau bwyd;
- y defnydd helaethach o'r Gymraeg yn y sector masnachol yn gyffredinol – e.e. gan archfarchnadoedd cadwyn mawrion, gorsafoedd petrol, banciau a chymdeithasau adeiladu, busnesau lleol, mân ddiwydiannau crefftiau a.y.y.b. – sef yn bennaf ei defnydd ar arwyddion dwyieithog a Chymraeg; mewn cyhoeddiadau ac ar labeli nwyddau);
- y defnydd cynyddol o'r Gymraeg ar y we wrth i sefydliadau greu gwefannau dwyieithog.

**DARPARIAETH DDWYIEITHOG AR DRAWS Y PROFFESIYNAU (heb fod yn uniongyrchol iaith-gysylltiol o reidrwydd, ond yn cynnig cyfleoedd drwy “ychwanegu gwerth”)**

- Athrawon
- Darlithwyr
- Cyfreithwyr
- Cyfrifwyr
- Penseiri

Gwelir yma eto gymysgedd o beuoedd traddodiadol a pheuoedd newydd. Crybwyllwyd eisoes (ym mharagraff 1.2.1.) y bu'r Gymraeg yn elfen draddodiadol greiddiol o swyddi rhai athrawon a darlithwyr – un ai am eu bod yn byw ac gweithio mewn “ardaloedd Cymraeg” ac yn defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu, neu am eu bod yn dysgu Cymraeg fel pwnc. Er pan gynhwyswyd y Gymraeg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ym 1996 mae'r galw am yr olaf wedi cynyddu. Am y proffesiynau eraill, gwelir patrwm tebyg i'r hyn a welwyd wrth drafod y sector gofal iechyd uchod. Hynny yw, yn y gorffennol mi fyddai twrne lleol, cyfrifydd lleol a phensaer lleol yn weddol debygol o fod yn ddwyieithog yn yr ardaloedd 'Cymreiciaf' - yn aml am eu bod yn hanu o'r cymunedau a wasanaethid. Byddai hynny'n llai tebygol wrth reswm yn yr ardaloedd lle roedd canran y siaradwyr Cymraeg yn is. Erbyn hyn gwelir tuedd gynyddol, yn enwedig yn yr ardaloedd lle ceir canrannau uchel neu niferoedd sylweddol o siaradwyr Cymraeg, i'r proffesiynau weld mai mantais fasnachol yw gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog.



## Rhan Dau

# Y Potensial am Dwf mewn Meysydd Iaith-gysylltiol



## 2.1. Cyflwyniad

- 2.1.1. Mae'r sector iaith-gysylltiol yn un sy'n cwmpasu amrywiaeth o sgiliau iaith a gwasanaethau ac sydd wedi profi cyfnod o dwf sylweddol a chyson dros y deugain mlynedd diwethaf. I raddau helaeth mae hyn wedi digwydd yn ddi-gynllun ac yn ddi-batrwm, heb fawr o anogaeth, cynghorion na chymorth arbenigol o du asiantaethau datblygu economaidd, sydd, hyd yn hyn, heb geisio mynd ati i ddiffinio'r sector na mesur ei gyfraniad i economi Cymru. Rydym eisoes wedi tynnu sylw at yr angen am ymchwil bellach a fyddai'n ffynhonnell wybodaeth ar gyfer cloriannu'r cyfraniad hwn a dadansoddi a dosbarthu y categorïau o weithgarwch economaidd a welir yn y sector.
- 2.1.2. Mae'r ffaith bod y twf wedi digwydd yn y modd 'organig' hwn – hynny yw, gan godi o'r galw cynyddol am wasanaethau iaith-gysylltiol wrth i sefyllfa'r Gymraeg newid a datblygu – yn arwydd o'r potensial pellach wrth i'r sefyllfa honno barhau i newid a datblygu.
- 2.1.3. Yr her yw ceisio adnabod sefyllfa hanesyddol y Gymraeg wrth i'r newidiadau a'r datblygiadau hynny ddigwydd, a cheisio adnabod tueddiadau'r polisiau ieithyddol, diwylliannol ac economaidd sy'n deillio ohonynt. Wedyn gellir adnabod a manteisio ar y cyfleoedd busnes a gyfyd o hynny. Rhaid wrth syniadau newydd, cynaladwy, yn ogystal â syniadau sy'n ychwanegu gwerth at fathau o ddarpariaeth a sefydlwyd eisoes, neu sy'n ategu safon ac ansawdd darpariaeth o'r fath.
- 2.1.4. Wrth agor y drafodaeth am y sector yn yr adroddiad hwn, er cydnabod bod yna le pendant i ddiffinio'r sector yn fanylach maes o law yng ngoleuni ymchwil a data, credir mai buddiol yw ei drafod a synio amdano yma mewn modd holistaidd fel 'sector' o weithgareddau, gwasanaethau a sgiliau sy'n gydgyssylltiedig â'i gilydd. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i adnabod sut mae'r gwahanol agweddau a meysydd yn dylanwadu ar ei gilydd, yn ategu ei gilydd ac – i ryw raddau – yn dibynnu ar ei gilydd.

## 2.2. Ffactorau Dylanwadol

2.2.1 Wrth edrych tua'r dyfodol a chwilio am gyfleoedd i ddatblygu gwaith yn y meysydd iaith-gysylltiol, rhaid bod yn ymwybodol o'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar y sector hwn ac ar ba mor addawol a chynladwy yw'r cyfleoedd a ddynodir.

2.2.2. Nodwyd eisoes, wrth amlinellu'r cefndir hanesyddol diweddar yn fras yn adran 1.2. uchod, mai'r prif ffactorau a ysgogodd dwf mewn gwaith yn y sector hwn dros y deugain mlynedd diwethaf oedd :

- deddfwriaeth yn codi statws y Gymraeg;
- cynnydd cyson mewn ymwybyddiaeth genedlaethol ac adfywiad yr "hunaniaeth Gymreig";
- datganoli grym llywodraethol o Lundain a sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gan fod y rhain i gyd yn brosesau sydd ar waith o hyd, a chan fod pob un o'r uchod yn fwy ynghlwm wrth ei gilydd bellach, ac yn sicr o borthi ei gilydd i raddau helaethach o hyn ymlaen, nid afresymol fyddai disgwyl i'r tueddiadau hanesyddol diweddar barhau ac ymgryfhau.

2.2.3. Fodd bynnag, wrth bwysu a mesur y gwahanol ffactorau dylanwadol rhaid nodi nid yn unig y rhai allai hybu a hwyluso datblygiad y sector ond hefyd y rhai allai effeithio'n negyddol ar ei dwf a/neu rwystro ei ddatblygiad.

### 2.2.4. Datblygiadau posibl neu debygol a allai ysgoqi twf yn y sector

- Hirdymor: Gellir rhagweld mai cynyddu wna'r galw am fwy o rym i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. O gofio'r consensws cyffredinol sydd ymhlith Aelodau'r Cynulliad o blaid y Gymraeg, petai'r Cynulliad yn ennill grym deddfwriaethol tebyg i'r hyn sydd gan Gynulliad yr Alban gellid disgwyl mwy o fesurau yn ymwneud â diogelu'r Gymraeg, hybu'r defnydd ohoni a hybu'r consensws cynyddol o'i phlaid ymhlith y cyhoedd, y sector cyhoeddus a'r sector busnes. Gallai datblygiad o'r fath olygu y rhyddheid adnoddau sylweddol ychwanegol at hybu, datblygu a diogelu'r iaith.
- Hirdymor Gellir disgwyl mai parhau i gynyddu wna'r pwysau gwleidyddol am fesurau i ddiogelu dyfodol y Gymraeg. Un o'r ymgyrchoedd gwleidyddol amlycaf ynglŷn â'r Gymraeg ers dechrau'r mileniwm newydd yw'r ymgyrch dros "**Ddeddf Iaith Newydd**". Un o'i hamcanion canolog yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector busnes a masnach.
- Tymor Canolig a Hirdymor: Disgwylir casgliadau a chanlyniadau **tri arolwg** o gryn bwys a gynhelir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sef:

1. Adolygiad o **waith Bwrdd yr Iaith Gymraeg**,
2. Adolygiad ac ymgynghoriad ar **Sefyllfa'r Iaith Gymraeg, a**
3. Adolygiad o faes **addysg ysgolion a cholegau addysg bellach**.

Gallai'r tri pheth hyn esgor ar argymhellion i ryddhau adnoddau ychwanegol at hybu a datblygu 'r Gymraeg. Gallai adnoddau o'r fath gael eu cyfeirio un ai yn uniongyrchol i wahanol gyrff a sefydliadau sy'n gweithredu yn y meysydd dan sylw, trwy eu cynnig ar ffurf **prosiectau neu dendrau**, ynteu eu sianelu trwy Fwrdd yr Iaith Gymraeg, i'w dosrannu i gyrff o'r fath ar gyfer prosiectau yn ôl eu strategaeth hwy a'u goleuni hwy. Y dewis olaf hwn yw'r un mwyaf tebygol, a barnu yn ôl ein profiad hyd yma.

- Tymor Byr, Canolig a Hirdymor: Wedi tair blynedd cyntaf ei weithrediad mi gaiff **pob Cynllun Iaith Gymraeg statudol** ei adolygu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, a fydd yn asesu sut y gweithredir ei fesurau ac i ba raddau maent yn llwyddo, ac effeithiolrwydd a thrylwyrdd y drefn a sefydlwyd i'w hwyluso a'u monitro. Hyd yma, yn dilyn adolygiadau o'r fath mae argymhellion y Bwrdd wedi ysgogi sawl math o weithgarwch i wella gweithrediad a/neu gynnwys Cynlluniau, neu'r trefniadau i'w monitro. Rhagwelir mai cynyddu wna'r galw am wasanaethau arbenigol yn y meysydd hyn.
- Tymor Byr, Canolig a Hirdymor: Mae camau ar droed i gynyddu arfer da dwyieithog ym **maes Addysg Bellach ac yng ngholegau Prifysgol Cymru**. Penodwyd swyddogion yn unswydd i'r diben hwn dros y flwyddyn diwethaf a rhagwelir y bydd y sefydliadau dan sylw yn awyddus i elwa ar yr arfer da a'r arbenigedd a sefydlwyd eisoes ym maes dwyieithrwydd. Ochr yn ochr â hyn, yn hydref 2001 bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dechrau cynnal yr arolwg a grybwyllwyd eisoes ar addysg ysgolion a cholegau addysg bellach.
- Tymor Byr, Canolig a Hirdymor: Disgwylir i'r **sector busnes a masnach** ymddiddori mwyfwy mewn dwyieithrwydd. Mae Ymgyrch "Blas ar Gymru" ac ymgyrchoedd gan Fwrdd Croeso Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac eraill yn deffro'r sector hwnnw i fanteision uniaethu dwyieithrwydd â safon dda, ansawdd da a gwerth uchel.
- Tymor Byr a Chanolig: Gall y drefn **Gwerth Gorau** a weithredir ym myd llywodraeth leol beri i fwy o wasanaethau cyfieithu a gwasanaethau iaith gael eu 'contractio allan' gan greu mwy o gyfleoedd i sefydlu partneriaethau rhwng gwasanaethau mewnol a'r sector masnachol.
- Tymor Byr a Chanolig: Yn yr un modd, bydd disgyblaeth y drefn **Gwerth Gorau** ynghyd ag arfer da ym maes **Gofal o'r Cwsmer** yn gyffredinol yn ei gwneud hi'n fwyfwy gofynnol i uwch reolwyr fod yn ymwybodol o bwysigrwydd a manteision darpariaeth ddwyieithog wrth gynllunio gwasanaethau a strategaethau rheoli.
- Tymor Byr, Canolig a Hirdymor: Hyd yn oed heb ddeddfwriaeth newydd neu ddiwygiedig nac unrhyw newidiadau sylweddol yn y polisiau strategol ar y Gymraeg, bydd parhad y polisiau a'r tueddiadau presennol yn sicr o greu twf yn y maes pa r'un bynnag.

### **2.2.5. Datblygiadau posibl a allai rwystro neu atal twf yn y sector**

- **Hirdymor:** Y posibilrwydd o newid agwedd sylfaenol a **newid sylweddol yng nghyfeiriad polisi y Cynulliad a/neu Lywodraeth Gwledydd Prydain** am un neu ragor o'r rhesymau canlynol:
  - chwalu'r consensws gwleidyddol sydd wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf parthed y Gymraeg;
  - cwestiynu priodoldeb cyfeirio adnoddau ar raddfa mor fawr at yr iaith Gymraeg os bydd gostyngiad sylweddol iawn yn nifer ei siaradwyr rhwng Cyfrifiad 2001 a Chyfrifiad 2011;
  - ethol llywodraeth Brydeinig a chanddi agwedd fwy negyddol tuag at ddatganoli a/neu y Gymraeg.
- **Hirdymor a Thymor Canolig:** Cwestiynu **priodoldeb neilltuo cymaint o adnoddau ar gyfer cyfieithu** dogfennau ar y naill law a chyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd ar y llaw arall. Eisoes gwelwyd rhywfaint o drin a thrafod y cyntaf ar dudalennau cyfnodolion Cymraeg ac ar y cyfryngau. Mae cwestiynu o'r fath yn bur debygol o ddwysáu yn enwedig os na welir cynnydd mwy calonogol yn y niferoedd sy'n dewis darllen dogfennau Cymraeg, cwblhau ffurflenni Cymraeg a siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd.
- **Tymor Canolig:** **Dim cynnydd sylweddol yn yr adnoddau** a ddyrennir gan y Cynulliad, un ai trwy Fwrdd yr Iaith neu fel arall, at ddatblygu, hyrwyddo a diogelu yr iaith Gymraeg.

2.2.6. O gymharu'r pwyntiau o dan 2.2.4. â'r rhai o dan 2.2.5. uchod, fe welir bod y rhagolygon am dwf yn y sector iaith-gysylltiol yn llawer iawn mwy ffafriol nag anffafriol ar hyn o bryd, a chredwn fod yma sylfaen dda ar gyfer datblygu o fewn y sector neu fentro o'r newydd ynddo.

## 2.3. Targeddu Meysydd Twf Potensial

### 2.3.1. CYFIEITHU

- Er bod yna nifer fawr o gyfieithwyr yn y sector preifat erbyn hyn, yn gwmnïau, yn unigolion ac yn bartneriaethau bychain, mae'r galw yn cynyddu o hyd. Fodd bynnag, ceir llawer o gwynion am safonau cyfieithu ysgrifenedig. Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn gymdeithas broffesiynol sy'n cynnig aelodaeth trwy arholiad, a bwriedir i hyn fod yn rhyw ddull o geisio gwarantu safon gwaith. Erbyn hyn, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn cyfeiro'r sawl sy'n ymholi am waith cyfieithu at aelodau'r Gymdeithas am waith o safon.
- **Credir bod yna le i ddatblygu gwasanaethau cyfieithu sy'n marchnata yn effeithiol eu pwyslais ar warantu safon trwy (i) gwirio a golygu pob cyfieithiad, (ii) aelodaeth eu cyfieithwyr o Gymdeithas Cyfieithu Cymru, (iii) indemniaeth broffesiynol.**
- Mae prinder cyfieithwyr sy'n gallu cyfieithu ar y pryd, ac mae'r galw am wasanaethau o'r fath yn cynyddu wrth i fwyfwy o gyrff fabwysiadau'r arfer da o gynnal cyfarfodydd dwyieithog. Nid oes chwaith unrhyw gyrff hyfforddiant proffesiynol cyflawn cydnabyddedig i ddiwallu'r angen am y sgiliau hyn yn benodol. Dyma faes lle mae'n anodd ennill y sgiliau angenrheidiol heblaw trwy weithio i gyflogwyr sy'n barod i'w meithrin ar gyfer swyddi penodol. Yn y sector cyhoeddus y datblygwyd y sgiliau hyn yn fwyaf – a hynny mewn llywodraeth leol yn bennaf.
- **Credir bod yna le i rai sy'n meddu ar sgiliau cyfieithu ar y pryd i fentro i'r sector preifat gyda golwg ar arbenigo mewn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o safon uchel gydag indemniaeth broffesiynol.**
- Mae Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn awyddus i gydweithredu ag eraill i ddatblygu hyfforddiant mewn cyfieithu ar y pryd. Ar hyn o bryd mewn sawl un o Golegau Prifysgol Cymru ceir cyrsiau hyfforddi sy'n neilltuo cyfran fechan o'u hamser i feithrin y sgiliau hyn, a bu Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn cynnal gweithdai hanner diwrnod ar hyd a lled Cymru i'r un perwyl.
- **Credir bod yna le i rai sy'n brofiadol iawn ym maes cyfieithu ar y pryd ddatblygu hyfforddiant proffesiynol yn y maes hwn mewn cydweithrediad â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru a darparwyr yn y sector addysg uwch, a gyda golwg ar achredu'r hyfforddiant a phennu safonau ac arfer da yn y maes.**

- Ar hyn o bryd ceir nifer fawr o unigolion a pharau sy'n gweithio fel cyfieithwyr, a mân asiantaethau sy'n defnyddio ychydig o gyfieithwyr amser llawn a rhan-amser. Mae'r mwyafrif o'r rhain heb ymaelodi â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru; mae llawer ohonynt heb unrhyw gysylltiad â datblygiadau yn y maes a datblygiad y proffesiwn, a gan amlaf maent yn gweithredu'n annibynnol ar yr ymdrechion i warantu safonau cynnyrch.
- **Dichon bod yna le i ddatblygu asiantaeth(au) 'ambarél' a fyddai'n cynnig (i) marchnata ar ran clwstwr o gyfieithwyr o'r fath; (ii) gwarantu safonau trwy ddarparu gwasanaeth gwirio a golygu gan gyfieithydd neu gyfieithwyr profiadol sy'n aelodau cyflawn o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru; (iii) dosbarthu gwaith yn ôl trefn gytunedig – gallai hyn hwyluso trefniadau'r cyfranogwyr ar gyfer cymryd gwylliau ac absenoldeb oherwydd salwch; (iv) darparu gweinyddiaeth ganolog i brosesu archebion a gweithredu'r trefniadau uchod ac agweddau personol eraill yn ôl y gofyn.**
- Mae swyddfeydd y Mentrau Iaith wedi datblygu'n ganolfannau lleol ar gyfer darparu cyngor, cymorth ac arweiniad ar yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd. Yn aml iawn mae'r cyhoedd yn troi at eu swyddogion maes/prosiect/datblygu am waith cyfieithu, er nad cyfieithu yw eu harbenigedd. Yn yr adroddiad **Mentro Ymlaen** (1) gan Gwmni Iaith, sef adroddiad arolwg a wnaed o'r Mentrau Iaith ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg, argymhellwyd "*na ddylai'r Mentrau ymhél â chyfieithu sylweddol heblaw trwy sefydlu adain gyfieithu fasnachol*". Yn ogystal, argymhellodd yr awduron "*y dylai unrhyw waith cyfieithu a wneir gan y Mentrau fod yn rhan o ymgyrch gyfansawdd a chydlynus i hyrwyddo'r Gymraeg gyda grŵp targed penodol*". Ochr yn ochr â hyn, bu Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn trafod efo Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac eraill y syniad o ddarparu gwasanaeth cyfieithu cymunedol nodedig o swyddfeydd y mentrau, lle y gallai mân fasnachwyr, clybiau, mudiadau ac unigolion lleol gael cyfieithiadau am brisiau rhad neu ostyngol. Byddai telerau ffafriol o'r fath yn rhoi dwyieithrwydd o fewn cyrraedd mwy o grwpiau cymunedol. Gallai hyn fod yn "*grŵp targed penodol*" yn unol â'r ail argymhelliad uchod gan Gwmni Iaith. Hefyd byddai'n unol ag amryw o'r amcanion a nodir yn *adrannau 6, 7 ac 8 o'r Strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg* a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg.
- **Credir bod yna le i ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu gwasanaeth(au) cyfieithu cymunedol yn swyddfeydd y Mentrau Iaith – un ai yng nghyflogaeth y Mentrau neu fel arall.**
- Mae cyfieithu yn un o'r meysydd a ddynodir ymhlith y rhai y mae'n briodol i Fentrau Iaith weithredu ynddynt yn ôl dogfennau cynllunio strategol Bwrdd yr Iaith Gymraeg, sef **Strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg** (1996) ac **Yr Iaith Gymraeg : Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000-2005** (2000). (2)

(2) *Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Mentro Ymlaen - Arolwg o'r Mentrau Iaith, 2000; Adroddiad gan Gwmni Iaith, Caerdydd, 2000, Argymhellion 7.3.46 - 47, tud.113.*

(3) *Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Caerdydd.*

Mae hyn yn gyson â delwedd y Mentrau fel “canolfannau-pob-dim-Cymraeg” yn y gymuned fel a nodir uchod. Fodd bynnag, nid yw'r Mentrau ar hyn o bryd yn cyflogi cyfieithwyr cymwys i gyflawni'r gwaith hwn, ac yn y ddogfen **Mentro Ymlaen : Arolwg o'r Mentrau Iaith 2000** (1) mae Iaith Cyf. yn ategu'r farn a fynegwyd mewn gweithdy a gynhaliwyd i'r Mentrau Iaith yng Ngregynog ym 1998, sef mai swyddogaeth hwyluso a chyfeirio ddylai fod gan y Mentrau yn y cyswllt hwn ar hyn o bryd, yn hytrach na swyddogaeth darparwyr y gwasanaeth, ac mai “anaddas” fyddai i'r Mentrau ymgymryd â gwaith cyfieithu sylweddol eu hunain. Ar y llaw arall, wrth ystyried datblygiad y Mentrau yn y dyfodol mae *Mentro Ymlaen* yn argymhell y “dylai mentrau iaith ystyried sefydlu cwmni neu adain gyfieithu fasnachol i ennill arian i'r fenter ar yr un gwastad â chwmnïau cyfieithu eraill, gyda'r elw yn bwydo yn ôl i'r fenter fel perchennog y gwasanaeth i'w ddefnyddio ar gyfer cynlluniau eraill.” Pwysleisia'r awduron ei bod “yn hollbwysig cynnal safonau proffesiynol yn y maes cyfieithu” ac mai dyma'r ffordd orau i sicrhau hynny.

- **Credir y dylai'r mentrau iaith ystyried sefydlu cwmnïau neu adeiniau cyfieithu masnachol.**

### 2.3.2. GWEINYDDOL, DWYIEITHOG

- Wrth i fwyfwy o gyflogwyr arddel Cynlluniau Iaith statudol neu wirfoddol neu bolisiau dwyieithrwydd, mae'r galw am sgiliau gweinyddol dwyieithog yn cynyddu. Mae asiantaeth *Medrel* o Gaerdydd yn cynnig darparu gwasanaethau swyddogion ysgrifenyddol dwyieithog amser llawn, ar gytundeb, rhan amser a thros dro ('temps'), gyda phwyslais ar wasanaethu cwmnïau ffilm a theledu. Hefyd mae *Ymgynghoriaeth Recriwtio Prosper*, a leolir ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe, yn hysbysebu “*gwasanaeth unigryw i baru siaradwyr Cymraeg â swyddi cyfrwng Cymraeg (.....) yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat*” (2). Credir bod yna le ddatblygu darpariaeth gyffelyb ar gyfer cyflenwi gwasanaethau gweinyddol mewn ardaloedd eraill. Dyma faes lle mae dwyieithrwydd yn ychwanegu gwerth at wasanaethau sydd wedi canolbwyntio cyn hyn ar ddarpariaeth Saesneg yn unig.
- **Credir bod yna le i ddatblygu asiantaeth(au) sy'n cynnig gwasanaethau gweinyddol dwyieithog a'u marchnata'n helaeth, gan gynnwys gwasanaethau ysgrifenyddol, gair-brosesu, teipio, gwasanaethau derbynfa, cownteri, ateb ffôn, ysgrifenyddion personol ac yn y blaen.**

---

(1) *op.cit.*

(2) Hysbyseb yn *Golwg*, 6.10.01. tud.21.

### 2.3.3. RECRIWTIO STAFF DWYIEITHOG

- Yn ôl yr adroddiadau monitro blynyddol a gyhoeddir gan gyrff cyhoeddus ar weithrediad eu cynlluniau iaith, un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu cyflogwyr yw'r anhawster a gânt wrth geisio recriwtio staff dwyieithog. Ym mis Mawrth 2001, mewn cyfarfod a gadeiriwyd gan Cynog Dafis, A.C., mi gytunodd *Fforwm Dwyieithrwydd Gogledd Cymru* (sef fforwm a arweinir gan awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru ac sy'n cynnwys ymhlith ei aelodau gynrychiolwyr ar ran amryw o wasanaethau cyhoeddus a'r cyfleustodau ar hyd a lled Gogledd Cymru) i baratoi tystiolaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i dynnu sylw at yr anawsterau a brofir yn y cyswllt hwn. Cyflwynwyd y dystiolaeth honno ar ffurf dogfen sy'n galw ar y Cynulliad i greu *Strategaeth Marchnad Lafur*. Diben strategaeth o'r fath fyddai cynllunio ar gyfer diwallu'r angen cynyddol am sgiliau dwyieithog ym mhob maes. Mae'r galw cynyddol hwn, a'r diffyg cydlyn strategol i'w ddiwallu, yn fater y tynnodd Cwmni Iaith sylw ato hefyd, mewn adroddiad a gyflwynwyd i ELWa ym Mawrth 2001 (1). Yn y cyfamser, wrth i fwyfwy o gyflogwyr gystadlu am y niferoedd cyfyngedig o staff sydd â sgiliau dwyieithog, dwysáu wna'r broblem hon hyd nes y datblygir strategaeth hirdymor fel yr uchod i gynyddu a datblygu y cyflenwad o sgiliau dwyieithog a'r niferoedd sy'n meddu arnynt.
- **Credir bod yna le i ddatbygu gwasanaeth(au) i gynorthwyo cyflogwyr i recriwtio staff dwyieithog ar bob lefel.**

### 2.3.4. HYFFORDDIANT IAITH A HYFFORDDIANT IAITH-GYSYLLTIOL

- Cynyddu wna'r galw am hyfforddiant Cymraeg wrth i'r galw am sgiliau dwyieithog o bob math gynyddu. Mae rhwydwaith o asiantaethau hyfforddi wedi datblygu, yn cynnwys *Popeth Cymraeg* yn Ninbych, *Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn*, Llithfaen, ac *Acen* yng Nghaerdydd. O safbwn hwyluso rhyddhau staff i ddilyn cyrsiau hyfforddiant, mae pellter y canolfannau hyn o leoliadau darpar gleientau yn ystyriaeth allweddol bwysig.
- **Credir bod yna le i ddatblygu'r rhwydwaith o asiantaethau ymhellach er mwyn manteisio ar y galw cynyddol a geir ym mhob cwr o Gymru am hyfforddiant iaith. Gellid rhoi blaenoriaeth yn y tymor byr / canolig i lenwi'r bylchau amlwg o ran darpariaeth yn yr hen sir Dyfed ac ym Mhowys.**
- Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol

---

(1) ELWa, "Doing Business in a Bilingual Wales : a study of the need for Welsh and bilingual skills in North Wales S.M.E.'s and training provision with regard to Welsh". Astudiaeth gan Gwmni Iaith, Mawrth 2001.

(N.V.Q.) wedi ennill eu plwy fel cymwysterau graddedig a diffiniedig sy'n briodol i weithleoedd mewn llawer sector. Rhoddant bwyslais ar asesu a chydabod sgiliau galwedigaethol a feddir eisoes neu a enillir o'r newydd, a gwelwyd bod y system hon yn cynnig fframwaith da ar gyfer safoni a chydabod sgiliau Cymraeg. Serch hynny mae'n fframwaith 'llafur-ddwys' o safbwynt asesu sgiliau a rhaid i ddarpar aseswyr gael eu dilysu trwy dderbyn hyfforddiant cydnabyddedig i gyflawni eu gwaith. Bu *Sgiliaith* wrthi'n ceisio datblygu'r ddarpariaeth ym maes addysg bellach, ac r hyn o bryd (Mawrth 2002) mae Cwmni Iaith yn paratoi adroddiad i'r *Prosiect NVQ Cymraeg a Dwyieithog ar Ddatblygu'r Defnydd o'r Gymraeg mewn Hyfforddiant NVQ* (1) yn gyffredinol. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y prinder dybryd o ddarparwyr ac aseswyr sydd ar gael i drin gwahanol bynciau a meysydd galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Yn fwy penodol, adlewyrchir y diffyg hwn hefyd gan brinder hyfforddwyr / aseswyr i hyfforddi / asesu sgiliau 'Cymraeg yn y gweithle'. Gall hyn yn ei dro lesteirio effeithiolrwydd Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol yn y sector cyhoeddus a gwirfoddol, a pholisïau iaith yn y sector preifat, drwy lesteirio datblygu sgiliau iaith galwedigaethol staff mewn modd strwythuredig a chyson er mwyn galluogi gwahanol gyrff i weithredu'n ddwyieithog.

- **Credir bod yna le i ddatblygu gwasanaeth i gynnig aseswyr / hyfforddwyr NVQ cyfrwng Cymraeg / dwyieithog, yn benodol mewn sgiliau 'Cymraeg yn y Gweithle' ac mewn meysydd galwedigaethol amrywiol drwy ymgynghoriad â'r Prosiect NVQ Cymraeg a Dwyieithog, a'i farchnata ar raddfa eang.**
- Wrth i arfer da dwyieithog ymledu, mae wedi dod yn amlwg bod angen math arbennig o hyfforddiant sy'n wahanol i hyfforddiant mewn sgiliau defnyddio iaith, sef hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth am yr iaith a hyfforddiant sensitifrwydd ieithyddol. Mae hyfforddiant o'r fath yn berthnasol i siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg fel ei gilydd. Mae mwyfwy o gyflogwyr yn trefnu i'w staff dderbyn hyfforddiant o'r fath er mwyn eu cynorthwyo i ddeall (i) pam mae'r corff am weithredu Cynllun Iaith neu bolisi dwyieithrwydd; (ii) cyd-destun ehangach a chefnidir y polisi hwnnw, a (iii) sut bydd y polisi yn effeithio ar eu gwaith hwy a'u sefyllfa hwy. Hefyd defnyddir hyfforddiant o'r fath i ategu a dyfnhau dealltwriaeth a chymhellion darpar ddysgwyr Cymraeg. Mae hyn yn hyfforddiant go arbenigol sy'n gofyn am sgiliau hyfforddi arbennig a chryn sensitifrwydd. Ychydig iawn o hyfforddwyr sydd ar gael yn y maes hwn, ond mae Cwmni Iaith, trwy gydweithrediad â Bwrdd yr Iaith a'r ychydig o hyfforddwyr sy'n flaenllaw yn y maes, wrthi ar hyn o bryd yn datblygu a safoni hyfforddiant o'r fath yn ôl canllawiau cytunedig ac ar sail elfennau craidd cytunedig dan y faner 'Agwedd'.
- **Rhagwelir twf cynyddol yn y galw am hyfforddiant codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant sensitifrwydd ieithyddol, a chredir bod yna le i ddatblygu**

---

(1) *ELWa, Datblygu'r Defnydd o'r Gymraeg mewn Hyfforddiant NVQ, adroddiad ar y gweill gan Gwmni Iaith ym Mawrth 2002.*

**arbenigedd yn y maes mewn cydweithrediad â'r grŵp proffesiynol. Agwedd, a gynullir gan Gwmni Iaith.**

- Mae amryw o sylwebyddion wedi mynegi siom am (i) cyn lleied o bobl sy'n dewis darllen dogfennau Cymraeg a chwblhau ffurflenni Cymraeg a (ii) safon ac ieithwedd dogfennau a ffurflenni a gyfieithwyd i'r Gymraeg. Mae *Cymraeg Clir* yn ymgais i ymateb yn greadigol i'r her o ddenu siaradwyr Cymraeg i ddarllen Cymraeg. Datblygwyd gan Cen Williams o Ganolfan Bedwyr ym Mangor, a hynny ar ran Cyngor Gwynedd yn y lle cyntaf. Yn fras, mae Cymraeg Clir yn debyg i'r '*Plain English Campaign*'. Mae'r llyfr *Cymraeg Clir* ((Canolfan Bedwyr, Cyngor Gwynedd a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1999) yn cynnig canllawiau i awduron a chyfieithwyr ar ysgrifennu Cymraeg seml a hawdd i'w deall, er hwylustod i'r darllenydd. Bu'r awdur yn cynnal amryw o weithdai a sesiynau hyfforddiant ar Gymraeg Clir ac mae cryn ddi-ddordeb yn y syniad. I gyrff dwyieithog, gallai Cymraeg Clir a 'Plain English' gerdded law yn llaw.
- **Credir bod modd marchnata Cymraeg Clir ar raddfa eang gan (i) datblygu modiwl(au) hyfforddiant mewn Cymraeg Clir; a (ii) datblygu system i ddyfarnu 'nod cymeradwyo' i ddogfennau a ysgrifennwyd mewn Cymraeg Clir. Byddai nod cymeradwyo o'r fath yn debyg i symbol y 'darn grisial' a atgynhyrchir ar ddogfennau a gymeradwywyd gan y 'Campaign for Plain English', fel arwydd o safon ac arfer da.**

#### **2.3.5. GWASANAETHAU YMGYNGHORWYR RHEOLI / HYFFORDDI**

- Ymhlith y gwahanol wasanaethau a gynigir gan ymgynghorwyr rheoli ac ymgynghorwyr hyfforddi ceir amryw fathau o hyfforddiant i wella sgiliau ac effeithiolrwydd rheolwyr. Wrth i'r syniadaeth ar ddulliau a thechnegau rheoli ddatblygu a newid mae'n arferiad gan gyrff blaengar drefnu hyfforddiant o'r fath fel rhan o ddatblygiad personol a phroffesiynol eu rheolwyr ar bob lefel. Bydd hyn yn cynyddu wrth i fwyfwy o gyrff weithredu'r disgyblaethau rheoli sydd ynglŷn â *Gwerth Gorau* a *Buddsoddwyr Mewn Pobl*. Drwy'r sector cyhoeddus, lle y ceir ymrwymiad mewn Cynlluniau Iaith i gynnig hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg i ryw raddau neu'i gilydd, byddai cynnig hyfforddiant yn y naill iaith neu'r llall, neu'r ddwy, yn cynorthwyo cyflogwyr i weithredu eu Cynlluniau Iaith yn fwy effeithiol. Hefyd, nodwyd eisoes fel mae arfer da dwyieithog yn ymledu i'r sector preifat, felly rhagwelir cynnydd graddol yn y galw am hyfforddiant rheoli dwyieithog yn y sector hwnnw hefyd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd prin iawn yw'r ymgynghorwyr all gynnig hyfforddiant o'r fath yn ddwyieithog. Er enghraifft, y cyrsiau rheoli a ddefnyddir fwyaf drwy'r sector cyhoeddus yw cyrsiau N.E.B.S. a hyd y gwyddys nid oes darparwyr yng Ngogledd Cymru all gynnig y cyrsiau achrededig hynny yn ddwyieithog.
- **Credir bod yna le felly i ddarparu hyfforddiant rheoli dwyieithog, yn enwedig hyfforddiant achrededig cydnabyddedig megis cyrsiau N.E.B.S.,**

**gan farchnata'r ddarpariaeth honno yn y lle cyntaf mewn modd sy'n targedu'r cyrff hynny sydd â Chynlluniau Iaith Gymraeg.**

- Wrth i drefn *Gwerth Gorau* a disgyblaeth *Buddsoddwyr Mewn Pobl* fynd rhagddynt yn y sector cyhoeddus, a'r olaf hefyd yn gynyddol drwy'r sector preifat, mae mwyfwy o reolwyr yng Nghymru yn derbyn hyfforddiant ar yr agweddau ieithyddol ar ofal o'r cwsmer a bodlonrwydd y cwsmer. Gan amlaf, cynhwysir hyfforddiant o'r fath fel elfennau bychain mewn sesiwn neu fodiwl hyfforddiant mwy cynhwysfawr ar Werth Gorau neu Fuddsoddwyr Mewn Pobl.
- **Credir bod yna le i ddatblygu arbenigedd ar yr agweddau ieithyddol ar Werth Gorau a Buddsoddwyr mewn Pobl o safbwynt gofalu am y cwsmer a marchnata hyfforddiant ar hyn i reolwyr ar bob lefel yn y sector cyhoeddus.**
- Wrth i Gynlluniau Iaith Gymraeg ddatblygu, esblygu a chael eu diwygio o un i un yn dilyn adolygiad y Bwrdd o dair blynedd cyntaf eu gweithrediad, gwelir eu dylanwad yn ymestyn yn naturiol i faes rheoli adnoddau dynol. Mae'r gydberthynas rhwng gofynion y gwahanol fathau o ddeddfwriaeth gydraddoli sy'n ymwneud yn bennaf â chyfle cyfartal, cydraddoldeb hiliol, hawliau pobl anabl ac – erbyn hyn – hawliau a disgwyliadau siaradwyr Cymraeg, yn un gymhleth a sensitif. Yn aml bydd ymgynghorwyr rheoli perthnasol yn hyddysg am y tri cyntaf ac yn gallu rhoi hyfforddiant priodol arnynt, ond byddant yn gymharol anwybodus neu ansicr am union ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r Cynlluniau Iaith statudol a ddeilliodd ohoni. O ganlyniad, mae llawer o reolwyr ym maes personél yn gynyddol ansicr wrth geisio cydbwyso'r gwahanol ofynion hyn yn eu prosesau recriwtio, cyfweld a phenodi ac wrth gynllunio rhaglenni hyfforddiant
- **Credir bod yna le i ddatblygu arbenigedd ymgynghoriaeth ddwyieithog sy'n canolbwyntio ar hyfforddi a/neu gynghori Uwch Reolwyr a rheolwyr a staff adrannau adnoddau dynol ar gydbwyso gofynion y gwahanol fathau o ddeddfwriaeth gydraddoli – yn enwedig y Ddeddf Cyfle Cyfartal, y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol a Deddf yr Iaith Gymraeg.**
- Pan fydd ymgynghorwyr rheoli yn cystadlu am dendr neu waith comisiwn i gynllunio gwaith prosiect, cynnal astudiaeth, paratoi adroddiad neu i lywio, goruchwylio, trefnu neu ymgymryd â gwaith prosiect o'r fath, nid yw'n arferiad ganddynt i farchnata unrhyw allu i weithredu'n ddwyieithog. Fodd bynnag, byddai'r gallu i weithredu'n ddwyieithog, cyflwyno adroddiadau dwyieithog ar y gwaith mewn llaw a pharatoi'r dogfennau comisiwn yn ddwyieithog yn hwyluso gweithrediad Cynlluniau Iaith darpar gleientau yn y sector cyhoeddus neu'r sector gwirfoddol ac yn arbed costau cyfieithu. Yn ogystal, byddai'r gallu i gyfathrebu'n ddwyieithog â'r cleient a'r cyhoedd yn gallu cyfleu delwedd gyhoeddus ffafriol o'r corff comisiynu gan ychwanegu gwerth a safon at yr ymarferiad. O gofio bod pob Cynllun Iaith a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn ymdrin i ryw raddau â'r gofynion ieithyddol i bob trydydd parti sy'n gweithredu ar ran y corff, mae lle i ymgynghorwyr sy'n gobeithio cyflawni swyddogaeth fel trydydd parti farchnata eu gallu i weithredu'n ddwyieithog.

- **Credir bod yna le i ddatblygu gwasanaethau ymgynghorwyr rheoli dwyieithog sy'n gallu ddarparu gwasanaethau i reoli prosiectau, cynnal prosiectau, cynnal astudiaethau, paratoi adroddiadau ac yn y blaen.**

### 2.3.6. YMGYNGHORWYR IAITH ARBENIGOL

- Mae Cwmni Iaith yn gwmni sy'n cynnig ystod o wasanaethau ymgynghorol y mae galw cynyddol amdanynt, sef ymgynghoriaeth ar bolisiau a chynlluniau iaith; paratoi a gweithredu prosiectau iaith; gwasanaeth ymchwil ieithyddol a gwasanaeth darparu hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth a hyfforddiant sensitifrwydd ieithyddol. Gwelir bod yna beth gorgyffwrdd rhwng y meysydd hyn a rhai meysydd a drafodwyd eisoes (gweler y 4ydd paragraff yn *Adran 2.3.4. uchod ar Hyfforddiant Iaith a Hyfforddiant Iaith-gysylltiol*, a'r meysydd a drafodir yn yr 2il a'r 3ydd paragraffau yn *Adran 2.3.5. uchod*, sef hyfforddiant iaith-gysylltiol i reolwyr). Mae'r gweithgarwch ym mhob un o'r meysydd hyn yn sicr o gynyddu wrth i fwyfwy o gyrff fabwysiadu Cynlluniau Iaith a/neu bolisiau ar arfer da dwyieithog, ac wrth i'r nifer o brosiectau i hwyluso'r rhain gynyddu yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol ac ennill tir yn y sector preifat. Mae'r rhain yn feysydd arbenigol iawn sy'n gofyn am sgiliau arbennig a chefnidir proffesiynol arbennig. Yn gynyddol ni fydd gan rai o'r gyrff dan sylw yr arbenigedd a allai fod yn ofynnol i fynd i'r afael â materion fel yr isod er enghraifft :
  - datblygu a gwella'r trefniadau i recriwtio siaradwyr Cymraeg;
  - datblygu canllawiau i staff ar sawl agwedd ar weithrediad Cynllun Iaith;
  - datblygu rhaglen hyfforddiant;
  - darparu hyfforddiant codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant sensitifrwydd ieithyddol;
  - datblygu a gwella trefniadau monitro;
  - datblygu strategaethau adrannol;
  - diwygio cynnwys Cynllun Iaith a/neu dogfennau cysylltiedig, ac yn y blaen.
- **Credir bod yna le i ddatblygu ymgynghoriaethau iaith arbenigol tebyg i Gwmni Iaith, ond gyda'u gogwydd arbenigol eu hunain, i ateb y galw cynyddol ac amrywiol am wasanaethau ymgynghorol o'r fath.**

### 2.3.7. GWAITH CYMUNEDOL (Y MENTRAU IAITH)

- Yn ystod y degawd diwethaf datblygodd **20** o Fentrau Iaith sydd bellach yn cyflogi cyfanswm o **42** o staff. I raddau helaeth mae'r twf wedi digwydd wrth i garedigion yr iaith mewn gwahanol ardaloedd geisio efelychu llwyddiant, bwrlwm a gweithgarwch y mentrau cyntaf a sefydlwyd, ac atgynhychu hynny yn eu hardaloedd hwy eu hunain. Hynny yw, nid datblygiad a gynlluniwyd yn fwriadus strategol yw'r datblygiad a welwyd, ond ffrwyth dyheadau lleol ac ymdrechion ac ewyllys da llawer o weithredwyr lleol. I raddau mae'r ffaith fod y Mentrau bellach wedi cydsefydlu Mentrau Iaith Cymru yn cydnabod yr angen am orolwg strategol, cynllunio strategol a chydweithrediad ymarferol mewn ambell faes. Ategwyd hyn gan adroddiad diweddar gan Gwmni Iaith ar Fentrau Iaith Myrddin, adroddiad a gyfeiriodd hefyd at y potensial ar gyfer cydweithrediad trawsffiniol rhwng y Mentrau a'i gilydd. Credir y bydd yr agweddau mwy strategol a chydlynol hyn yn cryfhau dulliau rheoli y Mentrau fel y gallant gystadlu'n fwy effeithiol am arian prosiectau, cynlluniau newydd, cytundebau i redeg trefniadau rhwydweithio ac yn y blaen, nid yn unig gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Cynghorau Unedol ond hefyd trwy gynlluniau Amcan 1 ac o ffynonellau cyllidol eraill.
- **Credir bod yna le i Fentrau Iaith Cymru a'r Mentrau unigol gynllunio'n ddychmygus, ac weithiau'n drawsffiniol neu fesul glystyrau, i gynyddu'r adnoddau sydd ar gael i bob un Menter trwy ennill cyllid i ariannu prosiectau penodol a chytundebau newydd i estyn eu dylanwad a chynyddu eu staff a'u harbenigedd.**
- Mewn adroddiad diweddar ar Fentrau Iaith Myrddin, tynnodd Cwmni Iaith sylw at yr angen am gydweithio a chydlynu mwy effeithiol rhwng y Mentrau ar y naill law, a blaengareddau datblygu cymunedol ar y llaw arall. Ar hyn o bryd ymddengys nad oes gan y Mentrau yr arbenigedd i ddwyn ynghyd y datblygiadau ieithyddol a'r datblygiadau cymunedol mewn modd ystyrlon. Er mwyn cynyddu hygyrdd y Mentrau a'u gallu i gyfrannu at y broses datblygu cymunedol, da o beth fyddai iddynt ennill mwy o arbenigedd yn y maes hwnnw.
- **Credir felly fod yna le i ymchwilio i'r posibilrwydd o greu swyddogaeth gydlynol rhwng y Mentrau, fel asiantaethau cynllunio iaith yn y gymuned, a chyrrff datblygu cymunedol a chyrrff datblygu economaidd megis Unedau Datblygu Economaidd y Cynghorau Unedol, Datblygu Cymunedol Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, Menter a Busnes, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, ELWa, Gyrfa Cymru ac eraill. (Gweler hefyd 2.3.8. isod).**
- Yn yr un adroddiad gan Gwmni Iaith ar Fentrau Iaith Myrddin, mynegwyd y farn y dylai'r Mentrau ddatblygu mwy o arbenigedd mewn cynllunio ieithyddol.

---

(1) *Cwmni Iaith, Arolwg o Weithgareddau Mentrau Iaith Myrddin 1998-2001 : Crynodeb Gweithredol, adroddiad i Gyngor Sir Caerfyrddin, Mai 2001*

- **Byddai datblygu arbenigedd mewn cynllunio ieithyddol yn galluogi'r Mentrau i gystadlu am rywfaint o'r gwaith a drafodir yn adrannau 2.3.5. a 2.3.6. yr adroddiad hwn.**

### 2.3.8. Y SECTOR DATBLYGU ECONOMAIDD

- Mae'r drafodaeth yn y paragraff blaenorol am y Mentrau Iaith cymunedol yn arwain yn naturiol at ystyried ar lefel ehangach eto ddulliau o gydlynu'r datblygiadau pellgyrhaeddol yn y maes cynllunio iaith â'r gweithgarwch ar hyd a lled Cymru ym maes datblygu'r economi. Yn eu tystiolaeth ddiweddar a gyflwynwyd i Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol fel rhan o Adolygiad y Pwyllgor hwnnw o'r iaith Gymraeg, mae Menter a Busnes yn argymhell "o fewn Cynulliad Cenedlaethol Cymru bydd angen ystyried wrth drafod y *Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol sut gall y Gymraeg gyfrannu at ei lunio a'i wireddu* (sic)." Ychwanegir yn ogystal fod angen sicrhau bod "*datblygu ieithyddol yn cydweithio'n ystyrion*" â strategaethau a gwaith cyrff sy'n ymwneud â datblygu economaidd – Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa, yr Awdurdodau Lleol, y Bwrdd Croeso, Gyrfa Cymru ac eraill. Yn yr un modd, gellid dadlau nad oes gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ddylanwad digonol ym maes datblygu'r economi, o gofio bod eu *Strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg* yn cydnabod bod sefyllfa'r iaith gymaint ynghlwm wrth ffactorau economaidd.
- **Credir bod yna le felly i ymchwilio ymhellach i'r posibilrwydd o greu strwythur priodol i hwyluso cydberthynas ystyrion rhwng cyrff datblygu'r economi ac asiantaethau datblygu'r Gymraeg – o bosibl fel estyniad naturiol i waith Menter a Busnes neu Newidiem ac ar y cyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg. (Cytunwn â'r farn y dylai cydberthynas o'r fath fod yn rhan annatod o strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer datblygu'r economi genedlaethol.)**

### 2.3.9. Y DIWYDIANT CYFATHREBU

- Ym maes cysylltiadau cyhoeddus ceir ychydig o gwmnïau sy'n cynnig gwasanaeth dwyieithog cyflawn. Efallai mai'r rhai amlycaf yw Strata–Matrix yn Aberystwyth a Chaerdydd, Frances Balsom Associates hefyd yn Aberystwyth, Cennad-Quadrant yng Nghaernarfon a Chwmni Utgorn ym Mhorthmadog. Ceir yn ogystal amryw o weithredwyr llai, yn unigolion ac yn barau sy'n cynnig y gwasanaeth hwn ynghyd â gwasanaethau iaith-gysylltiol eraill, megis cyfieithu. Gan fod cysylltiadau cyhoeddus dwyieithog yn faes a gynhwysir ym mhob Cynllun Iaith, a chan fod yna gymaint o gwmnïau mawrion yn y sector preifat nad

ydynt yn cyflogi swyddogion cysylltiadau cyhoeddus lleol i ddelio â'r cyfryngau yng Nghymru, credir bod yna le i ddatblygu cyfleoedd yn y maes hwn.

- **Credir bod yna le i ddatblygu gwasanaethau cysylltiadau cyhoeddus dwyieithog yn arbennig mewn ardaloedd lle nad oes cwmnïau blaenllaw yn gweithredu yn y maes ar hyn o bryd (Abertawe, Gogledd-ddwyrain Cymru, Powys) ac yng Nghaerdydd, lle y ceir cymaint o ddatblygiadau newydd.**
- Ym maes technoleg gwybodaeth y mae galw cynyddol am wefannau safonol. Mae amryw o'r Cynghorau Unedol wedi sefydlu gwefannau dwyieithog, sy'n cynnig dewis iaith i'r sawl sy'n cysylltu â nhw. Bellach mae'n troi'n arferiad i wahanol gyrff a sefyliadau sefydlu gwefannau o'r fath fel rhan annatod o'u dulliau cyfathrebu a chysylltiadau cyhoeddus.
- **Credir bod yna le i sefydlu gwasanaeth(au) i gynllunio, dylunio a sefydlu gwefannau dwyieithog o safon dda, a'u haddasu a'u diweddarau yn ôl yr angen.**

#### 2.3.10. Y SECTOR IECHYD / GOFAL

- Ym maes gofal plant, gwelwyd datblygu ambell i feithrinfa ddwyieithog lwyddiannus iawn sy'n cynnig gwasanaeth gwarchod a gofalu am blant ynghyd â chyfleusterau chwarae. Yn ogystal mae rhai meithrinfeydd yn darparu gwelyau i blant bach, ffreutur a chyfleusterau arlwyio a chegin.
- **Credir bod yna le i ddarparu mwy o feithrinfeydd dwyieithog o safon dda - yn y lle cyntaf mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth o'r fath eisoes a lle y ceir canran uchel o siaradwyr Cymraeg neu niferoedd sylweddol o siaradwyr Cymraeg.**
- Eto ym maes gofal plant, ar ôl oriau ysgol yn ystod tymhorau'r ysgolion, ac yn ystod gwyliau'r ysgolion, mi fydd llawer o rieni yn gwneud trefniadau i warchod eu plant. Yn aml iawn mae trefniadau o'r fath yn cynnwys talu i gymydog, cyfaill neu berthynas am y gwasanaeth.
- **Credir bod yna le i ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu clybiau gwarchod dwyieithog o safon dda i ofalu am blant ar ôl oriau ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgolion.**
- Ym maes triniaethau 'ategol' neu 'amgen' - maes eang iawn bellach sy'n cynnwys triniaethau megis osteopatheg, ffisiotherapi, aromatherapy, aciwbigo, reiki a llawer o rai eraill - unigolion sy'n darparu'r gwasanaethau, weithiau mewn

mân bartneriaethau ag eraill. Fel arfer, mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu marchnata ar raddfa fechan, leol yn ynig.

- **Credir bod yna le i ddarparu gwasanaeth(au) triniaethau amgen yn ddwyieithog a'u marchnata mewn modd safonol sy'n pwysleisio natur bersonol, agos-atoch-chi y gwasanaethau a'r ffaith eu bod yn cynnig dewis iaith i'r sawl sy'n eu derbyn. Credir hefyd y dylai deunydd marchnata Saesneg ar gyfer gwasanaethau o'r fath bwysleisio eu Cymreigrwydd fel nodwedd frodorol, 'werth uchel', sy'n perthyn yn naturiol i dir Cymru, ac sydd felly - yn anuniongyrchol – yn ategu 'dilysrwydd' ymddangosiadol y gwasanaethau eu hunain.**
- Pan sefydlir unrhyw fusnesau newydd ym maes iechyd / gofal a milfeddygaeth, mae natur bersonol y gwasanaethau "wyneb yn wyneb" hyn yn cynnig cyfle i ychwanegu at eu gwerth drwy bwysleisio mai rhan o sensitifrwydd a rhagoriaeth unrhyw wasanaeth o'r fath yw ei fod ar gael yn Gymraeg neu Saesneg, yn ôl dewis y defnyddiwr.
- **Credir felly bod yna le i farchnata darpariaeth ddwyieithog fel ffactor 'gwerth uchel' wrth sefydlu neu ddatblygu gwasanaethau ym meysydd iechyd/gofal a milfeddygaeth.**

#### **2.3.11. DARPARIAETH DDWYIEITHOG AR DRAWS Y PROFFESIYNAU**

- Yn yr un modd ag a nodwyd yn y paragraff blaenorol, pan sefydlir unrhyw fusnes newydd mewn maes proffesiynol, yn enwedig mewn meysydd lle y cynnig gwasanaethau personol "wyneb yn wyneb" megis cyfrifwyr, cyfreithwyr, ymgynghorwyr ariannol, penseiri ac ati, mae cyfle i ychwanegu at eu gwerth drwy bwysleisio mai rhan o sensitifrwydd a rhagoriaeth y gwasanaeth yw ei fod ar gael yn Gymraeg neu Saesneg, yn ôl dewis y defnyddiwr. Gall amryw o fusnesau a sefydlwyd ym mhob un o'r meysydd hyn yng Ngwynedd er enghraifft dystio i'r fantais fasnachol bendant o allu cynnig gwasanaeth yn Gymraeg, a diau y byddai hyn yr un mor wir am ardaloedd eraill lle nad yw'r proffesiynau yn cynnig darpariaeth o'r fath ar hyn o bryd. Wrth ehangu neu lenwi swyddi gwag gallai cwmnïau a fu'n gweithredu'n uniaith Saesneg hyd yma fanteisio ar y cyfle i ychwanegu gwerth at eu gwasanaethau drwy recriwtio partneriaid newydd / staff newydd dwyieithog fel y gallant gynnig gwasanaethau dwyieithog.
- **Credir felly fod yna le i farchnata darpariaeth ddwyieithog fel ffactor 'gwerth uchel' wrth sefydlu neu ddatblygu busnesau neu wasanaethau yn y meysydd hyn.**

### 2.3.12. DYLUNIO DWYIEITHOG

- Ym maes marchnata bwydydd a gynhyrchwyd yng Nghymru, mae ymgyrchoedd Blas ar Gymru, Tast y Teifi a Chegin Cymru wedi llwyddo i gysylltu pecynnu dwyieithog ac, i raddau, hysbysebu dwyieithog â'r gwerth uchel sydd ynglŷn â chynnyrch 'pur' o safon uchel. Mae hyn yn cynnwys cynnyrch ffermydd traddodiadol, ffermydd organig, cynnyrch 'crefft-wyr' bwydydd a mân gynhyrchwyr a rydd sylw manwl i safon eu cynnyrch ac sy'n ymfalchio yn y ffaith nad yw eu cynnyrch wedi ei gynhyrchu trwy ddefnyddio dulliau ffatri 'dinesig'. Mae amryw o fusnesau crefftau yn marchnata eu cynnyrch mewn modd cyffelyb gan bwysleisio natur frodorol y grefft neu'r deunudd crai. Credir y bydd y duedd hon yn ymledu wrth i gynhyrchwyr bwydydd a nwyddau eraill droi at ddwyieithrwydd wrth chwilio am dulliau marchnata gwahanol ac unigryw sy'n pwysleisio 'purdeb', safon eithriadol a naws wledig eu cynnyrch 'Cymreig'.
- **Credir bod yna le i sefydlu gwasanaeth dylunio dwyieithog sy'n arbenigo mewn pecynnu dwyieithog a deunydd marchnata dwyieithog.**
- Wrth i arfer da dwyieithog ennill tir ym mhob sector credir y bydd y galw am wasanaeth dwyieithog i ddarparu deunyddiau swyddfa dwyieithog yn cynyddu. Dyma faes y mae Gwasg y Lolfa a Memrwn wedi arloesi ynddo. Mantais darparwyr eraill sy'n gweithredu ar raddfa lawer ehangach ac yn cynnig gwasanaeth Saesneg a nwyddau Saesneg yn unig yw eu prisiau cystadleuol iawn.
- **Credir bod yna le i ailedrych yn ddychmygus ar y farchnad yma gyda golwg ar gynhychu a marchnata'n egniol amrediad o ddeunyddiau swyddfa dwyieithog deniadol o safon uchel am brisiau cystadleuol.**
- Yn yr un modd cynyddu mae'r galw am arwyddion Cymraeg a dwyieithog parod i'w defnyddio mewn adeiladau, ac arwyddion mwy sylweddol a pharhaol i'w codi ar byst neu ar waliau yn yr awyr agored. O ran y cyntaf, mae Pentec Eifionydd yn cynhyrchu amrediad ardderchog o arwyddion dwyieithog safonol iawn ar feiniyl adlynol ac ar blastig PVC caled, 1mm. Am yr arwyddion mwy parhaol i'r awyr agored, mae amryw o gwmnïau yn cynhychu'r rhain yn ôl y gofyn. Fodd bynnag, gwyddys o brofiad fod yna lawer o ddarpar gleientau posibl heb unrhyw wybodaeth o gwbl am ble i droi am gynnyrch o'r fath.
- **Credir bod yna le i wasanaeth i gynghori ar arwyddion dwyieithog a Chymraeg o bob math ac a fyddai'n gweithredu fel asiantaeth i farchnata a gwerthu cynnyrch gwahanol wneuthurwyr arwyddion, adnabod bylchau yn y ddarpariaeth a llenwi'r bylchau hynny.**
- Maes lle mae'r ddarpariaeth Cymraeg yn ddiffygiol iawn yw'r farchnad cardiau cyfarch Cymraeg a chardiau dwyieithog. Bu ambell gyhoeddwr yn fwy mentrus na'i gilydd yn y maes hwn, ond mae'n gŏyn gyffredin o hyd mai delwedd hen

ffasiwn a braidd yn ddi-fflach sydd i'r mwyafrif o gardiau Cymraeg a welir. Bu amryw o unigolion a mân bartneriaethau yn mentro i'r maes hefyd, gan amlaf efo dyrnaid o wahanol gynlluniau gwreiddiol. Diddorol yw nodi hefyd mai'r elusen Oxfam sy'n cynhyrchu rhai o'r cardiau Nadolig dwyieithog a Chymraeg mwyaf lliwgar.

- **Credir bod lle i ailedrych ar y farchnad cardiau cyfarch Cymraeg a dwyieithog gyda golwg ar gynhyrchu amrediad o gardiau lliwgar, chwaethus a difyr o safon uchel at bob achlysur a phob tymor o'r flwyddyn.**
- Gweler hefyd yr ail baragraff o dan 2.3.9.uchod parthed dylunio gwefannau dwyieithog.

## 2.4. Crynodeb – Syniadau a Chyfleoedd

- Crynhoir yn yr adran hon y cyfleoedd a'r syniadau a amlinellir yn adran 2.3. uchod. Fe'u crynhoir ar ffurf rhestr o'r meysydd perthnasol gan ddynodi'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau ynglŷn â phob maes.
- Awgrymir hefyd amseriad priodol i'r cyfleoedd a awgrymir – y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor.

### Maes : **CYFIEITHU**

#### **Cryfderau :**

- Galw cynyddol am wasanaethau cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd;
- 3 adolygiad gan y Cynulliad Cenedlaethol yn debygol o ysgogi twf

#### **Gwendidau :**

- Llawer o unigolion a mân gwmnïau yn y maes a a diffyg rheolaeth ar y proffesiwn
- Diffyg rheolaeth dros safonau a safonau anghyson, felly llawer o risg i gleientau
- Prinder cyfieithwyr ar y pryd

#### **Cyfleoedd :**

- Datblygu gwasanaethu cyfieithu sy'n rhoi pwyslais ar safon trwy wirio a golygu, aelodaeth o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru ac indemniaeth broffesiynol. (*Tymor byr / canolig a chynladwy i'r hirdymor*)
- Datblygu asiantaeth sy'n arbenigo mewn cyfieithu ar y pryd o safon uchel. (*Tymor byr / canolig a chynladwy i'r hirdymor*)
- Datblygu hyfforddiant proffesiynol safonol, achrededig mewn cyfieithu ar y pryd. (*Tymor canolig a chynladwy i'r hirdymor*)
- Datblygu asiantaeth(au) "ambarél" i weithredu ar ran clwstwr neu gystyrau o fân gwmnïau a cyfieithwyr unigol. (*Tymor canolig a chynladwy i'r hirdymor*)
- Datblygu gwasanaethau cyfieithu cymunedol (*Tymor canolig*)
- Datblygu "cwmnïau" neu "adeiniau" cyfieithu masnachol o fewn y Mentrau Iaith (*Tymor byr / canolig*)

#### **Bygythiadau :**

- Tuedd ddiweddar i gwestiynu priodoldeb neilltuo cymaint o adnoddau i gyfieithu;
- Y posibilrwydd yr etholir llywodraeth wrth-ddatganoli neu wrth-Gymraeg gyda pholisïau fyddai'n atal neu rwystro twf yn y maes

## Maes : GWEINYDDOL, DWYIEITHOG

### Cryfderau :

- Galw cynyddol am wasanaethau gweinyddol dwyieithog;
- 3 adolygiad gan y Cynulliad Cenedlaethol yn debygol o ysgogi twf;

### Gwendidau :

- Darpariaeth wasgaredig, heb fannau recriwtio hwylus

### Cyfleoedd :

- Datblygu asiantaeth staffio i gynnig gwasanaethau gweinyddol dwyieithog amser llawn, ar gytundeb, tros dro a rhan-amser (*Tymor canolig a chynladwy i'r hirdymor*)

### Bygythiadau :

- Dim, hyd y gwelir.

## Maes : RECRIWTIO STAFF DWYIEITHOG

### Cryfderau :

- Galw cynyddol am staff dwyieithog

### Gwendidau :

- Dim cynnydd sylweddol cyfatebol yn y cyflenwad o sgiliau dwyieithog
- Anawsterau cynyddol cyflogwyr i recriwtio staff dwyieithog mewn rhai meysydd

### Cyfleoedd:

- Datblygu gwasanaeth(au) i recriwtio staff dwyieithog ar bob lefel ac ym mhob maes (*Tymor canolig a chynladwy i'r hirdymor*)

### Bygythiadau :

- Argyfwng recriwtio mewn meysydd penodol yn y tymor byr / canolig

## **Maes : HYFFORDDIANT IAITH A HYFFORDDIANT IAITH-GYSYLLTIOL**

### **Cryfderau :**

- Galw cynyddol am hyfforddiant iaith a hyfforddiant iaith-gygyltiol

### **Gwendidau :**

- Prinder hyfforddwyr mewn ymwybyddiaeth iaith / sensitifrwydd iaith
- Prinder aseswyr Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) mewn "Cymraeg yn y Gweithle" ac ar draws yr holl feysydd galwedigaethol
- Prinder asiantaethau hyfforddi mewn rhai ardaloedd

### **Cyfleoedd :**

- Datblygu asiantaethau hyfforddi ychwanegol (*tymor canolig*) gan flaenoriaethu'r bylchau amlwg yn ardal yr hen sir Dyfed ac ym Mhowys (*Tymor byr / canolig*)
- Datblygu gwasanaeth aseswyr / hyfforddwyr Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (N.V.Q.) mewn sgiliau Cymraeg yn y Gweithle ac ar draws yr holl feysydd galwedigaethol drwy ymgynghoriad â'r Prosiect NVQ Cymraeg a Dwyieithog (*Tymor byr / canolig*)
- Datblygu arbenigedd mewn Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith a Hyfforddiant Sensitifrwydd Iaith (*Tymor byr / canolig*)
- Datblygu hyfforddiant mewn Cymraeg Clir, ochr yn ochr â system nod cymeradwyo – o bosibl ar batrwm symbol 'y darn grisial' a ddefnyddir gan y *Campaign for Plain English* (*Tymor byr / canolig*)

### **Byggythiadau :**

- Patrwm a natur y galw yn amrywio ac yn anghyson, ac o ran y cyfleoedd uchod
- Parthed yr ail gyfle uchod: gall dull asesu llafur-ddwys yr NVQ's a'r prinder aseswyr esgor ar feirniadaeth gynyddol a chwestiynu ynghylch eu dyfodol

## **Maes : GWASANAETHAU YMGYNGHORWYR RHEOLI / HYFFORDDI**

### **Cryfderau:**

- Galw cynyddol yn gyffredinol ac o ganlyniad i ofynion Gwerth Gorau, Buddsoddwyr Mewn Pobl a'r sensitifrwydd ynghylch rhai materion personél

### **Gwendidau:**

- Prinder gweithredwyr dwyieithog ym maes hyfforddiant achrededig
- Sensitifrwydd mawr ynghylch cydberthynas rhai agweddau personél (hil, iaith, anabledd, cyfle cyfartal)

**Cyfleoedd:**

- Datblygu hyfforddiant dwyieithog i reolwyr, yn enwedig hyfforddiant achrededig NEBS (*Tymor canolig /hirdymor*)
- Datblygu hyfforddiant dwyieithog ar yr agweddau ieithyddol ar Werth Gorau a Buddsoddwyr Mewn Pobl o safbwynt 'gofalu am y cwsmer' (*Tymor canolig / hirdymor*)
- Datblygu ymgynghoriaeth ddwyieithog sy'n arbenigo ar hyfforddi staff rheoli adnoddau dynol ar y gydberthynas rhwng iaith, hil a chyfle cyfartal mewn prosesau recriwtio, cyfweld a phenodi (*Tymor canolig /hirdymor*)

**Bygythiadau**

- Y galw'n anghyson ac yn ddibatrwm

**Maes : YMGYNGHORWYR IAITH ARBENIGOL**

**Cryfderau :**

- Galw cynyddol am wasanaethau o'r fath

**Gwendidau :**

- Prinder darparwyr

**Cyfleoedd :**

- Datblygu ymgynghoriaethau iaith arbenigol (*Tymor canolig / hirdymor*)

**Bygythiadau :**

- Prinder sgiliau ymgynghori arbenigol

**Maes : GWAITH CYMUNEDOL (Y MENTRAU IAITH)**

**Cryfderau :**

- Y rhwydwaith o Fentrau'n dal i gynyddu ac ymgryfhau
- Cefnogaeth gref gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a amryw o'r Cynghorau Unedol

**Gwendidau :**

- Yn dibynnu ar ychydig iawn o ffynonellau ariannu
- Angen meithrin mwy o sgiliau arbenigol i'w galluogi i gystadlu am brosiectau
- Angen cydgysylltu eu hymdrechion ag ymdrechion cyrff datblygu'r economi

**Cyfleoedd :**

- Cynllunio'n ddychmygus ac yn drawsffiniol weithiau neu fesul clystyrau i ennill prosiectau newydd a chytundebau newydd (*Tymor byr/canolog /hirdymor*)
- Meithrin / caffael arbenigedd ar agweddau datblygu'r economi gyda golwg ar greu swyddogaeth gydlynol rhwng y Mentrau a chyrrff datblygu'r economi (*Tymor canolog /hirdymor*)
- Meithrin / caffael arbenigedd ar gynllunio iaith i'w galluogi i ymgymryd â rhai mathau o waith a grybwyllir yn adran 2.3.5. a 2.3.6. yr adroddiad hwn (*Tymor canolog /hirdymor*)

**Bygythiadau :**

- Gorddibyniaeth ar ychydig o ffynonellau ariannu
- Gall diffyg arbenigedd gyfyngu eu twf yn y dyfodol

<b>Maes : Y SECTOR DATBLYGU ECONOMAIDD</b>
--

**Cryfderau :**

- Rhwydwaith o asiantau yn weithredol yn y maes, yn genedlaethol ac yn lleol

**Gwendidau :**

- Prin iawn yw'r cydgysylltu a'r cydweithio rhwng y prif asiantaethau ym maes datblygu'r Gymraeg a dwyieithrwydd a phrif asiantaethau datblygu'r economi
- Diffyg ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr agweddau ieithyddol-ddiwylliannol ymhlith swyddogion datblygu'r economi

**Cyfleoedd :**

- Creu strwythur priodol i feithrin a hyrwyddo'r gydberthynas rhwng cyrrff datblygu'r economi a phrif asiantaethau datblygu'r Gymraeg (*Tymor canolog / hirdymor*)

**Bygythiadau :**

- Agwedd diriogaethol swyddogion yn y ddau faes
- Rhoi pwys mawr ar ddatblygu'r economi, a hynny ar draul ystyriaethau ieithyddol-ddiwylliannol

## **Maes : Y DIWYDIANT CYFATHREBU**

### **Cryfderau :**

- Galw cynyddol am gysylltiadau cyhoeddus dwyieithog

### **Gwendidau :**

- Llawer o gyrff ym mhob sector heb swyddogion dwyieithog i gyflawni'r gwaith hwn
- Prinder asiantaethau dwyieithog mewn rhai ardaloedd

### **Cyfleoedd :**

- Datblygu gwasanaethau cysylltiadau cyhoeddus dwyieithog, gan roi blaenoriaeth i'w datblygu yn yr ardaloedd hynny lle na cheir cwmnïau blaenllaw ar hyn o bryd (Abertawe, y Gogledd-ddwyrain, Powys) a Chaerdydd (*Tymor byr / canolig*)
- Datblygu gwasanaeth dylunio / addasu / diweddarau gwefannau dwyieithog (*Tymor byr / canolig*)

### **Byggythiadau :**

- Dim, hyd y gwelir

## **Maes : Y SECTOR IECHYD / GOFAL**

### **Cryfderau :**

- Ymwybyddiaeth gynyddol ar draws y sector o bwysigrwydd cynnig dewis iaith.

### **Gwendidau :**

- Llawer llai o gynnydd ac ymwybyddiaeth y tu allan i'r sefydliadau mawr.

### **Cyfleoedd :**

- Darparu meithrinfeydd dwyieithog o safon dda mewn ardaloedd lle na cheir darpariaeth o'r fath a lle y ceir canrannau uchel ac/neu niferoeddsylweddol o siaradwyr Cymraeg (*Tymor byr / canolig*)
- Sefydlu clybiau gwarchod dwyieithog o safon dda i ofalu am blant ar ôl oriau ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgolion (*Tymor byr / canolig*)
- Sefydlu gwasanaethau triniaethau amgen dwyieithog gan farchnata eu Cymreigrwydd fel nodwedd sy'n ychwanegu at werth uchel y ddarpariaeth (*Tymor byr / canolig*)
- Marchnata dwyieithrwydd fel nodwedd gwerth uchel wrth sefydlu busnesau newydd ym maes iechyd / gofal a milfeddygaeth (*Tymor byr / canolig / hirdymor*)

### **Byggythiadau :**

- Dim, hyd y gwelir

## **Maes : DARPARIAETH DDWYIEITHOG AR DRAWS Y PROFFESIYNAU**

### **Cryfderau :**

- Nifer o gwmnïau yn cynnig darpariaeth ddwyieithog fel rhan naturiol ac annatod o'u gwasanaethau
- Arfer da dwyieithog yn ymledu'n raddol iawn drwy'r proffesiynau

### **Gwendidau :**

- Lleiafrif yn unig o gwmnïau sy'n cynnig gwasanaethau yn ddwyieithog ar hyn o bryd
- Darpariaeth ddwyieithog yn amrywio'n fawr o ardal i ardal

### **Cyfleoedd:**

- Manteisio ar y cyfle i ychwanegu staff dwyieithog at gwmni wrth recriwtio partneriaid newydd a staff newydd, gyda golwg ar ychwanegu gwerth uchel at wasanaethau drwy eu cynnig yn ddwyieithog. (*Tymor byr / canolig / hirdymor*)

### **Bygythiadau :**

- Erys diwylliant rheoli ac arferion llawer o gwmnïau ar draws y proffesiynau braidd yn ynysig a thiriogaethol .

## **Maes : DYLUNIO DWYIEITHOG**

### **Cryfderau :**

- Ymgyrchoedd dylanwadol ar droed gan Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru a Bwrdd yr Iaith Gymraeg i hyrwyddo gwahanol agweddau ar ddylunio dwyieithog mewn amryw o wahanol sectorau
- Arfer da cynyddol yn y maes

### **Gwendidau :**

- Arafwch llawer o gwmnïau dylunio i gynnig gwasanaethau dwyieithog dychmygus a blaengar
- Llawer o gwmnïau dylunio heb staff dwyieithog i wirio a golygu profleuni dwyieithog
- Diffyg cysylltiad llawer o gwmnïau dylunio â'r arfer da cynyddol yn y maes

### **Cyfleoedd :**

- Datblygu gwasanaeth dylunio dwyieithog sy'n arbenigo mewn pecynnu dwyieithog a deunydd marchnata dwyieithog (*Tymor byr / canolig*)
- Ystyried y posibilrwydd o sefydlu gwasanaeth i ddarparu deunyddiau swyddfa dwyieithog o safon uchel am brisiau rhesymol (*Tymor byr / canolig*)
- Sefydlu asiantaeth i farchnata a gwerthu cynnyrch gwneuthurwyr arwyddion dwyieithog a Chymraeg, darparu cyngor ar arwyddion o'r fath ac adnabod a llenwi bylchau yn y ddarpariaeth. (*Tymor byr / canolig / hirdymor*)

**Bygythiadau :**

- Dim, hyd y gwelir

# Atodiad

## Ymchwil i ddiffinio'r Sector Iaith-Gysylltiol a'r anghenion am sgiliau Cymraeg a dwyieithog o fewn sectorau economi Cymru: Amlinelliad o fanyleb ddrafft

### Yr angen

Amlinellir yma yr angen am ymchwil i ddiffinio:

1. Y Sector Iaith-Gysylltiol Cymraeg
2. Yr angen am sgiliau Cymraeg a dwyieithog o fewn sectorau economi Cymru

Gan fod y sector iaith-gysylltiol a'r twf yn yr angen am sgiliau iaith Cymraeg a dwyieithog ar draws economi Cymru gyfan yn faes cymharol newydd mae'r agenda ymchwil o reidrwydd yn newydd hefyd. Golyga hyn fod angen datblygu ystod o brosiectau ymchwil cydgysylltiedig i gwrdd ag anghenion datblygol y maes o dan oruchwyliaeth grŵp llywio o arbenigwyr yn y meysydd: cynllunio iaith/sefydliadol, datblygu economaidd, hyfforddiant ac ymchwil economaidd ac ieithyddol. Amlinelliad bras o'r prif anghenion a geir yn yr atodiad hwn. Dylid cysylltu â'r awduron am syniadau pellach.

### Rhesymeg

Cwyd yr angen am ymchwil yn y maes o ganlyniad i:

1. gynydd yn y swyddi y gellir eu disgrifio fel swyddi 'iaith-gysylltiol';
2. diffyg ystadegau a gwybodaeth fanwl gywir am waith a gyflawnir o fewn y sector iaith-gysylltiol;
3. cynnydd yn y swyddi y mae angen sgiliau Cymraeg a dwyieithog ar eu cyfer ar draws sectorau economi Cymru gan gynnwys y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat;
4. diffyg ystadegau a gwybodaeth fanwl gywir am yr alw am staff gyda sgiliau Cymraeg a dwyieithog o fewn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat

### Nod yr ymchwil

Nod yr ymchwil fyddai:

- Diffinio union feysydd a swyddi y sector iaith-gysylltiol
- Sefydlu dulliau mesur twf a datblygiad y sector iaith-gysylltiol
- Mesur cyfraniad y sector iaith-gysylltiol i economi Cymru
- Adnabod yr anghenion am gyflogi staff gyda sgiliau Cymraeg a dwyieithog
- Adnabod anghenion hyfforddi ar gyfer y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat a'r sector iaith-gysylltiol
- Pennu ystod o gymwysterau sgiliau iaith Cymraeg a dwyieithog ar gyfer y sector iaith-gysylltiol a sectorau eraill economi Cymru

## Amcanion yr ymchwil

Amcanion yr ymchwil fyddai:

- Sefydlu partneriaethau gweithredol o fewn y maes i ddiffinio ac arwain yr ymchwil dros gyfnod o flynyddoedd
- Cofnodi faint o bobl sy'n gyflogedig o fewn meysydd y sector iaith-gysylltiol
- Datblygu dulliau casglu a chofnodi gwybodaeth am swyddi â sgiliau iaith Cymraeg/dwyieithog gan gyflogwyr y sector iaith-gysylltiol, a'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat
- Datblygu dulliau casglu, dehongli a rhannu data ymhlith y sefydliadau partneriaethol (gweler y rhestr isod)
- Adnabod a diffinio cyfraddau cyflog o fewn y sector iaith-gysylltiol a swyddi sgiliau Cymraeg a dwyieithog yn gyffredinol
- Diffinio lefelau sgiliau iaith priodol sy'n cyfateb i anghenion swyddi penodol o fewn sectorau economi Cymru, ac sy'n cael eu defnyddio o fewn y gwahanol sectorau addysg a hyfforddiant ar sail system yr Association of Language Testers in Europe (ALTE) a'r *Common Framework of Reference for Languages: Learning, teaching, assessment*.<sup>1</sup>

## Manteision yr Ymchwil

Gall manteision yr ymchwil gynnwys:

- sefydlu gweithdrefnau cofnodi a rhannu data;
- sefydlu partneriaethau er hwyluso cynllunio strategol cynhwysfawr ym meysydd llywodraethu, datblygu economaidd, addysg a hyfforddiant;
- adnabod yr anghenion am hyfforddiant yn y sectorau addysg uwchradd, pellach, ôl-16, a Chymraeg i Oedolion;
- adnabod patrymau twf/encilio ar gyfer cynllunio economaidd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

## Cyrff a fyddai yn elwa o'r ymchwil

a) o ran cynllunio economaidd:

- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Pwyllgor Datblygu Economaidd CCC
- Pwyllgor Iaith a Diwylliant CCC
- Pwyllgor Addysg a Gydol Oes CCC
- Awdurdod Datblygu Cymru (WDA)
- CBI Cymru
- Menter a Busnes
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

b) o ran cynllunio cymunedol:

- Unedau Datblygu Economaidd Awdurdodau Lleol
- Antur Dwyryd-Llŷn

---

<sup>1</sup> Council Of Europe (2001) *Common Framework of Reference for Languages: Learning, teaching, assessment*. Cambridge: Cambridge University Press. ISBN 0-521-00531-0.

- Antur Penllyn
- Antur Teifi
- Clwydfro
- Mentrau Iaith
- Menter Môn
- CYMAD

c) o ran cynllunio a darparu hyfforddiant:

- Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Cyngorau Cyllido Addysg Bellach ac Uwch Cymru
- ELWa
- ACCAC
- Fforwm
- Penaethiaid Addysg Uwch yng Nghymru
- Consortia Cymraeg i Oedolion
- CCETs (e.e. Y Gamfa)
- Ysgolion Uwchradd
- Colegau Addysg Bellach
- Colegau Addysg Uwch
- Cwmnïau Hyfforddi
- FENTO
- Cyngorau Hyfforddiant a Menter Cymru
- Awdurdodau Lleol

ch) o ran gwybodaeth yrfaol:

- Gyrfa Cymru
- Y Gwasanaeth Cyflogi
- TUC Cymru

Dr Kathryn Jones, Cwmni Iaith

## Llyfryddiaeth

- Bwrdd yr Iaith Gymraeg, **Strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg**, Caerdydd 1996
- Williams, Glyn a Morris, Delyth, **Language Planning and Language Use : Welsh in a Global Age**, Prifysgol Cymru, Caerdydd, 2000
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg, **Yr iaith Gymraeg – Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000-2005**, Caerdydd 2000
- Davies, Elaine, **Iaith Mewn Gwasanaeth Gofalgar**, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Caerdydd, 1999
- Cyngor Defnyddwyr Cymru, **Y Gymraeg fel Mater Defnyddwyr**, Caerdydd 1996
- Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, **Cyfeirlyfr Cyfieithwyr**, Bangor, 2001
- Fforwm Ddwyieithrwydd Gogledd Cymru, **(Drafft 1af) Strategaeth Marchnad Lafur – Tystiolaeth i Arolwg Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'r iaith Gymraeg**, Swyddfa'r Fforwm, Llangefni, Gorffennaf 2001
- Menter a Busnes, **Ymateb i'r Adolygiad gan Bwyllgor Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'r iaith Gymraeg**, Gorffennaf 2001
- Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, **Ymateb i'r Adolygiad gan Bwyllgor Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru o'r iaith Gymraeg**, Ionawr 2002
- Jones, Kathryn et al **Doing Business in a Bilingual Wales : a study of the need for Welsh and bilingual skills in North Wales S.M.E's and training provision with regard to Welsh**, astudiaeth gan Gwmni Iaith ar ran ELWa, Mawrth 2001.
- Jones, Kathryn **Datbygu'r Defnydd o'r Gymraeg mewn Hyfforddiant NVQ**, adroddiad drafft gan Gwmni Iaith ar ran y Prosiect NVQ Cymraeg a Dwyieithog, Chwefror 2002.
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg, **Strategaeth Genedlaethol Cymraeg i Oedolion**, Caerdydd 1966
- Williams, Cen, **Bilingual Teaching in Further Education : Taking Stock**, Canolfan Bedwyr, Prifysgol Cymru, Bangor, 1997
- Williams, Cen, **Cymraeg Clir**, Cyngor Gwynedd / Bwrdd yr Iaith Gymraeg / Canolfan Bedwyr, Prifysgol Cymru, Bangor, 1999

- Jones, Kathryn ac Ioan, Gareth, **Mentro Ymlaen – Arolwg o'r Mentrau Iaith 2000**, Bwrdd yr Iaith Gymraeg / Cwmni Iaith, Caerdydd, 2000
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg, **Adroddiad Blynyddol Mentrau Iaith Cymru 1999-00** Caerdydd 2000
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg, **Dogfen 50/4** ar Raglen 5ofed cyfarfod Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 23.3.01. sef **Ymateb y Bwrdd i Arolwg Iaith Cyf. o'r Mentrau Iaith**
- Cwmni Iaith, **Arolwg o Weithgareddau Mentrau Iaith Myrddin 1998-2001 : Crynodeb Gweithredol**, adroddiad i Gyngor Sir Caerfyrddin, Mai 2001
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg, **Adroddiad ar y Gweithdy a gynhaliwyd yng Ngregynog, Mai 20-21 1998**, Caerdydd 1998
- Bwrdd Croeso Cymru / Menter a Busnes, **Naws am Ie – Canllaw i Arwyddion Dwyieithog.**
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg, **Canllawiau Dylunio Dwyieithog**, Caerdydd
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg, **Defnyddio'r Gymraeg Mewn Busnes**, Caerdydd
- Williams, Colin H. ac Evas, Jeremy, **Y Cynllun Ymchwil Cymunedol**, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Caerdydd 1997
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg, **Y Cynllun Ymchwil Cymunedol – Y Camau Nesaf**, Caerdydd 1998



## Cydnabyddiaeth

Cydnabyddir yn ddiolchgar y cymorth hael a gafwyd gan y canlynol, boed trwy ymgynghori dros y ffôn, trafod wyneb yn wyneb neu ar ffurff deunydd ysgrifenedig.

- **Gareth Davies**, Ymgynghorydd Annibynnol
- **Jeremy Evas**, Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- **Stuart Harris**, Newidiem
- **Elwyn Hughes**, Tiwtor, Prifysgol Cymru, Bangor
- **Evie Wyn Jones**, Ymgynghorydd, Partneriaeth Jet
- **Megan Hughes Thomas**, Cyfarwyddwr, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru
- **Mair Owens**, Swyddog Cefnogi Iaith, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- **Liz Saville**, Cyfarwyddwraig, Sgiliaith
- **Roy Thomas**, Ymgynghorydd Annibynnol